


Canllaw ar weithrediad y Ffi Ymyrraeth (FFI)



Mae Ffi Ymyrraeth (FFI) yn weithredol o 1 Hydref 2012, dan reoliadau 23 i 25 y Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Ffioedd) 2012. Mae'r Rheoliadau hyn yn gosod dyletswydd ar yr HSE i adfer ei gostau am gyflawni ei swyddogaethau rheoleiddio gan y rhai a ganfuwyd i fod mewn tramgwydd materol o gyfraith iechyd a diogelwch.

Bydd hyn yn symud rhywfaint o gost rheoliadau iechyd a diogelwch o bwrs y wlad i fusnesau a sefydliadau sy'n torri deddfau iechyd a diogelwch.

Bydd y canllaw hwn yn helpu busnesau a sefydliadau i ddeall beth mae FFI yn golygu iddynt a sut mae'n cyd-fynd ag ymagwedd bresennol yr HSE i orfodaeth. Mae'n sefydlu egwyddorion cyffredinol ac ymagwedd y cynllun FFI.

Mae'r canllaw hwn yn cynnwys enghreifftiau o doriadau materol ond nid yw'n delio â phob senario ble gellir gweithredu'r FFI. Bydd arolygwyr yn gweithredu'r canllaw hwn ac yn gwneud eu penderfyniadau gorfodi yn unol ag egwyddorion fframweithiau penderfyniadau gorfodi presennol yr HSE - y Model Rheoli Gorfodi (EMM) a'r Datganiad Polisi Gorfodi (EPS). Mae hefyd yn esbonio'r broses i ddelio ag ymholiadau ac anfonebau a ddadleuir.

Cyhoeddwyd y canllaw hwn gyntaf ym Mehefin 2012 yn unol â Chod Ymarfer ar ganllaw ar Reoliadau 2009 yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau (www.bis.gov.uk/files/file53268.pdf) sy'n datgan y dylid cyhoeddi canllawiau ar reoliadau o leiaf 12 wythnos o flaen llaw i'r Rheoliadau yn dod i rym. Mae'r fersiwn bresennol, a gyhoeddwyd ym Medi 2012, yn fersiwn wedi ei chywiro o'r rhifyn 1af a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod Gweithredol ar 11 Mehefin 2012. Nid yw'r cywiriadau yn sylweddol, ond fe'i gwnaed i helpu busnesau i gael gwell dealltwriaeth o FFI ac i ddisgrifio gwir amseriad cyfnodau anfonebu'r HSE yn fwy cywir.

Cyflwynir y cywiriadau a wneir yn y canllaw, er hwylustod, isod hefyd:

- Paragraffau 24, 63, 70, 159, a 170–172 – ychwanegu'r geiriau 'hysbysiad tramgwyddo', i egluro ble fo EMM presennol yr HSE yn cyfeirio at lythyr, bod hynny'n cynnwys hysbysiad tramgwyddo.
- Paragraff 38 – newidiadau i'r rhestr o fisoedd ble bydd yr HSE yn cyhoeddi anfonebau pob deufis.
- Paragraff 46 - dolen i'r Weithdrefn ar gyfer ymholiadau ac anghydfod ar gyfer FFI yr HSE ar wefan yr HSE.
- Paragraff 54 – ychwanegu manylion cyswllt ffôn ac e-bost ar gyfer Tîm FFI yr HSE.

© *Hawlfraint y Goron 2012*

Cyhoeddwyd gyntaf 2012

Cywirwyd Medi 2012

Gallwch ail ddefnyddio'r wybodaeth hon (heb gynnwys logos) am ddim ar unrhyw fformat neu gyfrwng, dan amodau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Er mwyn gweld y drwydded ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/, ysgrifennwch at Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfonwch e-bost at psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Efallai na fydd rhai o'r delweddau a darluniau yn eiddo i'r Goron ac felly ni ellir eu hatgynhyrchu heb ganiatâd deiliad yr hawlfraint. Dylid anfon ymholiadau at copyright@hse.gsi.gov.uk.

Cynnwys

Rhagair	5
Beth yw FFI?	6
A yw'r FFI yn berthnasol i chi?	6
Eithriadau a datgymwysiadau i FFI	7
Sut mae FFI yn gweithio?	8
Beth yw tramgwydd perthnasol?	8
Faint yw'r ffi?	9
Beth mae'r ffi yn gynnwys?	9
Labordy Iechyd a Diogelwch a chyfraniad gan drydydd parti	10
Tramgwyddau materol yn ymwneud â deiliaid dyletswydd lluosog	10
Trefniadau gweinyddol ac ariannol	11
Gweithdrefn i ddelio ag ymholiadau ac anghydfod ynglŷn ag anfonebau	12
Ad-daliadau	13
Cysylltiadau i gael cyngor a chanllaw	13
Sut mae'r FFI yn cyd-fynd ag ymagwedd bresennol yr HSE i orfodaeth?	14
Gwneud penderfyniadau gorfodi	14
<i>Datganiad Polisi Gorfodi (EPS)</i>	14
<i>Model Rheoli Gorfodi (EMM)</i>	14
Sut mae EMM yn berthnasol i FFI?	18
Enghreifftiau o FFI ar waith	18
Risgiau iechyd	19
Asbestos	19
Asthma	19
Mannau cyfyng	19
Dirgryniad llaw a braich	20
Sylweddau peryglus	20
Legionellosis, yn cynnwys clefyd y llengfilwyr	20
Anhwyldeirau'r cyhyrau a'r esgyrn	21
Sŵn	21
Risgiau diogelwch	21
Syrthio o uchder	21
Gwaith nwy	22
Hylifau fflamadwy	22
Offer codi	22

<i>Nwy petrolewm hylifedig (LPG)</i>	22
<i>Gardiau peiriannau</i>	23
<i>Systemau gwasgedd</i>	23
<i>Cynnal a chadw diogel</i>	23
<i>Cludiant gweithle</i>	24
<i>Adeiladu</i>	24
<i>Tramgwyddau lles</i>	24
<i>Rheoli risgiau iechyd a diogelwch</i>	25
Enghreifftiau o weithrediad EMM	26
Enghraifft 1: Erlyniad	26
<i>Risg iechyd: Amlygiad i darth hylif gwaith metel</i>	26
Enghraifft 2: Hysbysiadau gwahardd a gwella	27
<i>Risg diogelwch: Gweithio ar uchder ar lwyfan gwaith annïogel</i>	27
Enghraifft 3: Hysbysiad gwella	28
<i>Risg diogelwch: Gardiau peiriannau</i>	28
Enghraifft 4: Llythyr (hysbysiad o dramgwyddo)	29
<i>Risg iechyd: Hyfforddiant asbestos</i>	29
Enghraifft 5: Rhybudd llafar	31
<i>Cydymffurfiad nad yw'n seiliedig ar risg: Cofrestr sgaffald</i>	31
Atodiad 1: Cyfraith iechyd a diogelwch a orfodir gan HSE ble na ellir adfer costau dan FFI	33
Atodiad 2: Methodoleg a ddefnyddir i gyfrifo symiau taladwy	36
Cyfradd fesul awr	36
Rhagor o wybodaeth	37

Rhagair

Mae Ffi Ymyrraeth (FFI) yn weithredol o 1 Hydref 2012, dan reoliadau 23 i 25 y Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Ffioedd) 2012. Mae'r Rheoliadau hyn yn gosod dyletswydd ar yr HSE i adfer ei gostau am gyflawni ei swyddogaethau rheoleiddio gan y rhai a ganfuwyd i fod mewn tramgwydd materol o gyfraith iechyd a diogelwch.

Cyhoeddir y canllaw hwn gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

Bydd yn helpu busnesau a sefydliadau ddeall beth mae FFI yn golygu iddynt a sut mae'n cyd-fynd ag ymagwedd bresennol yr HSE i orfodaeth. Mae'n sefydlu egwyddorion cyffredinol ac ymagwedd y cynllun FFI.

Mae'r canllaw yn cynnwys enghreifftiau o doriadau materol ond nid yw'n delio â phob senario ble gellir gweithredu'r FFI. Bydd arolygwyr yn gweithredu'r canllaw hwn ac yn gwneud eu penderfyniadau gorfodi yn unol ag egwyddorion fframweithiau penderfyniadau gorfodi presennol yr HSE - y Model Rheoli Gorfodi (EMM) a'r Datganiad Polisi Gorfodi (EPS). Mae'r canllaw hefyd yn esbonio'r weithdrefn o ddelio ag ymholiadau ac anfonebau a ddadleuir.

Cyhoeddwyd y canllaw hwn gyntaf ym Mehefin 2012 yn unol â Chod Ymarfer ar ganllaw ar Reoliadau 2009 yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau (www.bis.gov.uk/files/file53268.pdf) sy'n datgan y dylid cyhoeddi canllawiau ar reoliadau o leiaf 12 wythnos o flaen llaw i'r Rheoliadau yn dod i rym. Mae'r fersiwn bresennol, a gyhoeddwyd ym Medi 2012, yn fersiwn wedi ei chywiro o'r rhifyn 1af a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod Gweithredol ar 11 Mehefin 2012. Nid yw'r cywiriadau yn sylweddol, ond fe'i gwnaed i helpu busnesau i gael gwell dealltwriaeth o FFI ac i ddisgrifio gwir amseriad cyfnodau anfonebu'r HSE yn fwy cywir.

Cyflwynir y cywiriadau a wneir yn y canllaw, er hwylustod, isod hefyd:

- Paragraffau 24, 63, 70, 159, a 170–172 – ychwanegu'r geiriau 'hysbysiad tramgwyddo', i egluro ble fo EMM presennol yr HSE yn cyfeirio at lythyr, bod hynny'n cynnwys hysbysiad tramgwyddo.
- Paragraff 38 – newidiadau i'r rhestr o fisoedd ble bydd yr HSE yn cyhoeddi anfonebau pob deufis.
- Paragraff 46 - dolen i'r Weithdrefn ar gyfer ymholiadau ac anghydfod ar gyfer FFI ar wefan yr HSE.
- Paragraff 54 – ychwanegu manylion cyswllt ffôn ac e-bost ar gyfer Tîm FFI yr HSE.

Beth yw FFI?

1 Mae arolygwyr yr HSE yn cyflawni gwaith archwilio ac yn ymchwilio i ddamweiniau a chwynion. Os, wrth ymweld â busnes, byddant yn gweld tramgwyddau perthnasol o'r gyfraith, bydd rhaid i'r busnes neu sefydliad dalu ffi. Mae'r ffi yn seiliedig ar faint o amser mae'n rhaid i'r arolygydd hwnnw dreulio yn nodi'r tramgwydd materol, helpu busnesau i unioni pethau, ymchwilio a gweithredu i unioni.

2 Ar 21 Mawrth 2011, lansiodd y Gweinidog dros Gyflogaeth, y Gwir Anrhydeddus Chris Grayling AS, ymagwedd y Llywodraeth tuag at ddiwygio'r system iechyd a diogelwch ym Mhrydain gyda *Good Health and Safety, Good for Everyone* (www.dwp.gov.uk/policy/health-and-safety/). Roedd y cynnig yn cynnwys pecyn o fesurau i newid y diwylliant o iechyd a diogelwch ym Mhrydain.

3 Mae'r mesurau hyn yn cynnwys symud cost rheoliadau iechyd a diogelwch o bwrs y wlad i fusnesau a sefydliadau sy'n torri deddfau iechyd a diogelwch. Mae'r Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Ffioedd) 2012 yn gosod dyletswydd ar yr HSE i adfer ei gostau am gyflawni ei swyddogaethau rheoleiddiol o'r rhai a ganfuwyd i fod yn cyflawni **tramgwydd materol** (paragraffau 14-19) o ddeddf iechyd a diogelwch.

4 Gelwir y cynllun yn Ffi ar gyfer Ymyrraeth (FFI) ac mae'n effeithiol i ddeiliaid dyletswydd† sydd wedi eu rheoleiddio gan yr HSE, ar ac wedi 1 Hydref 2012. Ni fydd yr FFI yn berthnasol i ymyriadau HSE a gychwynnodd cyn y dyddiad hwn, nac i ddeiliaid dyletswydd a reoleiddir gan awdurdodau gorfodi eraill fel awdurdodau lleol (www.hse.gov.uk/foi/internalops/fod/oc/100-199/124-11.htm).

5 Dan FFI, dim ond costau ei waith rheoleiddio gan ddeiliaid dyletswydd a ganfyddir i fod yn cyflawni tramgwydd materol yn erbyn cyfraith iechyd a diogelwch fydd yr HSE yn ceisio ei adfer. Ni chodir FFI ar ddeiliaid dyletswydd sy'n cydymffurfio â'r gyfraith, neu ble nad yw tramgwydd yn faterol, am unrhyw waith mae'r HSE yn ei wneud iddynt.

6 Bydd y canllaw hwn yn helpu deiliaid dyletswydd i ddeall beth mae FFI yn golygu iddynt a sut mae'n cyd-fynd ag ymagwedd bresennol yr HSE i orfodaeth. Bydd y canllaw yn cael ei adolygu'n rheolaidd a'r fersiwn bresennol yn cael ei chyhoeddi ar wefan yr HSE www.hse.gov.uk/fee-for-intervention.htm.

A yw'r FFI yn berthnasol i chi?

7 Mae'r FFI yn berthnasol i ddeiliaid dyletswydd ble mae'r HSE yn awdurdod gorfodi. Mae hyn yn cynnwys cyflogwyr, pobl hunangyflogedig sy'n rhoi eraill (yn cynnwys eu cyflogeion neu'r cyhoedd) dan risg, a rhai unigolion yn gweithredu mewn cymhwyster ac eithrio fel cyflogwr, e.e. partneriaid. Mae'n cynnwys:

- cwmnïau cyhoeddus a chyfyngedig;
- partneriaethau cyffredinol, cyfyngedig ac atebolwydd cyfyngedig; a
- cyrff y Goron a chyhoeddus.

8 Ni fydd sefydliadau eraill sy'n gorfodi cyfraith iechyd a diogelwch, fel yr heddlu, awdurdodau lleol, yr Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau, yr Awdurdod Hedfan Sifil a Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd, yn gallu adfer eu costau dan FFI.

† Deiliaid dyletswydd yw'r rhai sydd â dyletswyddau dan y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974, a'r Rheoliadau a wnaed dan y Ddeddf.

Eithriadau a datgymwysiadau i FFI

9 Nid yw FFI yn berthnasol i naill ai bobl hunangyflogedig sy'n creu risg iddynt eu hunain yn unig, nac i gyflogeion. Yn ogystal, nid yw'r FFI yn berthnasol i unigolion sydd wedi tramgwyddo dan adrannau 36 a 37 y Ddeddf lechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974 gan nad yw'r darpariaethau hyn yn creu dyletswydd y gellir ei thramgwyddo. Yn hytrach maent yn dynodi'r amgylchiadau pan all cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog tebyg arall fod yn euog o dramgwydd. Ble fo cyflogai yn cyflawni tramgwydd materol a bod eu cyflogwr hefyd wedi cyflawni tramgwydd materol, dim ond i'r tramgwydd gan y cyflogwr y mae'r FFI yn berthnasol.

10 Ar hyn o bryd mae'r gweithgareddau canlynol wedi eu heithrio:

- ligwaith trwyddedadwy gydag asbestos gan y rhai sydd â thrwydded i weithio gydag asbestos dan y rheoliadau Rheoli Asbestos 2012 (mae'r ffi drwyddedu yn cynnwys elfen i dalu am gostau archwilio); a
- gweithgareddau yn cynnwys cyfryngau biolegol ar lefel cyfyngiant 1 i 4, gan y bwriedir cyflwyno cynllun cost llawn ar gyfer y gwaith hwn o fewn dwy flynedd.

11 Ni fydd yr HSE yn codi FFI am waith ble mae ffi arall eisoes yn daladwy ar gyfer rhywfaint neu'r cyfan o'r gwaith hwnnw. Mae hyn yn cynnwys:

- safleoedd sy'n amodol i ofynion haen uchaf y Rheoliadau Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr 1999 (COMAH) a gwaith yr HSE ar safleoedd COMAH haen is sy'n gysylltiedig â rheoli peryglon damweiniau mawr;
- cyfleusterau cynhyrchu olew a nwy ar y môr;
- Rheoliadau Diogelwch Nwy (Rheoli) 1996;
- safleoedd wedi eu trwyddedu dan y Ddeddf Gosodiadau Niwclear 1965;
- dyfrdyllau ar y tir – mae cynllun adfer cost unigol yn cael ei ddwyn i mewn ar gyfer y gwaith hwn gan y Rheoliadau lechyd a Diogelwch (Ffioedd) 2012;
- gweithgareddau eraill megis gwasanaethau cymeradwyo cymorth cyntaf ble mae'r HSE eisoes yn casglu ffi.

12 Ni fydd yr HSE yn codi FFI am gyflawni ei swyddogaethau dan yr offerynnau statudol canlynol:

- Rheoliadau Rheoli Peryglon o Ddamwain Ddifrifol 1999;
- y Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Defnydd Cynhwysol) 2000;
- Y Rheoliadau Cynnyrch Bioladdwyr 2001; ac
- y Rheoliadau Cemegau (Gwybodaeth Perygl a Phecynnu ar gyfer Cyflenwi) 2009.

13 Ni fydd yr HSE yn adfer ei gostau dan yr FFI yn yr amgylchiadau canlynol:

- ble fo'r tramgwydd materol yn ymwneud ag unrhyw un o'r cyfreithiau a restrir yn Atodiad 1 oherwydd ni wneir y cyfreithiau hyn dan y Ddeddf lechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati;
- ar gyfer gwaith yr HSE o ran apêl yn erbyn hysbysiad gwella neu wahardd mewn tribiwnlys cyflogaeth;
- ar gyfer gwaith yr HSE parthed erlyniad yng Nghymru a Lloegr wedi gosod Gwybodaeth gerbron y llys – bydd unrhyw gostau erlyniad dilynol yn cael eu hadfer trwy'r llysoedd (yn ôl doethineb y llys);
- ar gyfer gwaith yr HSE parthed erlyniad yn yr Alban wedi i'r HSE gyflwyno adroddiad i'r Procuradur Ffisgal i benderfynu a ddyliid cyflwyno erlyniad. Ni ellir adfer unrhyw gostau erlyniad dilynol dan gyfraith yr Alban; ac

- Ar gyfer gwaith yr HSE parthed cyrff y Goron o'r pwynt ble mae'r HSE yn hysbysu corff y Goron yn ffurfiol y byddai wedi dechrau erlyniad troseddol yn eu herbyn, pe na fyddai'n gorff y Goron.‡

Sut mae FFI yn gweithio?

Beth yw tramgwydd perthnasol?

14 Dan FFI, dim ond costau ei waith rheoleiddio gan ddeiliaid dyletswydd a ganfyddir i fod yn cyflawni tramgwydd materol yn erbyn cyfraith iechyd a diogelwch fydd yr HSE yn ceisio ei adfer.

15 Mae tramgwydd materol yn un ble, ym marn yr arolygydd yr HSE, y mae neu y cafwyd tramgwydd o gyfreithiau iechyd a diogelwch sy'n gofyn iddynt gyhoeddi hysbysiad ysgrifenedig o'r farn honno i'r deiliad dyletswydd.

16 Gallai hysbysiad ysgrifenedig gan arolygydd yr HSE fod yn hysbysiad tramgwyddo, hysbysiad gwella neu wahardd, neu erlyniad a rhaid iddo gynnwys yr wybodaeth ganlynol:

- y gyfraith mae barn yr arolygydd yn ymwneud â hi;
- yn rhesymau dros eu barn; ac
- hysbysiad fod ffi'n daladwy i'r HSE.

17 Dylai'r hysbysiad ysgrifenedig hefyd esbonio pa droseddau sy'n dramgwyddau materol.

18 Wrth benderfynu a yw deiliad dyletswydd wedi cyflawni toriad materol o'r gyfraith, rhaid i arolygwyr yr HSE weithredu'r canllaw hwn ac egwyddorion penderfyniad gorfodi presennol yr HSE wrth lunio fframweithiau, y Model Rheoli Gorfodi (EMM) (www.hse.gov.uk/enforce/emm.pdf) a'r Datganiad Polisi Gorfodi (EPS) (www.hse.gov.uk/pubns/hse41.pdf). Ble gallai cyfraith amgen, nad yw'r Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974 neu gyfraith a wnaed dan y Ddeddf honno fod yn berthnasol i sefyllfa benodol, rhaid i arolygwyr weithredu'r gyfraith fwyaf priodol sy'n berthnasol i amgylchiadau cyfan y tramgwydd.

19 Defnyddir egwyddorion EMM gan arolygwyr wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â gweithredu gorfodol. Yr egwyddor sylfaenol o EMM yw y dylai gweithredu gorfodi fod yn gymesur i raddfa'r risgiau iechyd a diogelwch a nodwyd ac i ddifrifoldeb y tramgwydd. Mae'r canllaw hwn yn cynnwys arweiniad syml i'r EMM (paragraffau 55-182), gydag enghreifftiau ynglŷn â sut olwg sydd ar dramgwydd materol yn ymarferol.

‡ Ni all yr HSE gyflwyno hysbysiad gwella na wahardd ar, nac erlyn corff y Goron dan adran 48(1) y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974. Mewn achosion priodol, gellir mynd ar drywydd gweithdrefnau amgen (hysbysiadau'r Goron a cheryddon y Goron - sy'n cyfateb i erlyniad) yn eu lle. Bydd yr HSE yn adfer ei gostau ar gyfer ei waith rheoleiddio parthed tramgwyddau materol (yn cynnwys hysbysiadau'r Goron) hyd at y pwynt a nodwyd uchod.

Faint yw'r ffi?

20 Yn weithredol o 1 Hydref 2012, y ffi sy'n daladwy gan ddeiliaid dyletswydd a ganfyddir i fod yn cyflawni tramgwydd materol o'r gyfraith yw £124 yr awr (ac eithrio ble mae angen cynnwys yr HSL neu drydydd parti ble cesglir gwir gost y gwaith (paragraff 28). Sefydlir y dull o gyfrifo'r ffi yn Atodiad 2. Gallai'r ffi hon newid yn y dyfodol, a darperir y ffi newydd ar wefan yr HSE.

21 Bydd y swm i'w adfer yn seiliedig ar faint o amser a gymer i'r HSE nodi a chwblhau ei weithredu rheoleiddio, parthed y tramgwydd materol (yn cynnwys unrhyw waith swyddfa cysylltiedig), wedi ei luosogi gan y gyfradd bob awr berthnasol. Bydd hyn yn cynnwys rhannau o oriau.

Beth mae'r ffi yn gynnwys?

22 Mae'r ffi'n daladwy am gostau rhesymol yr HSE yn ystod gwaith rheoleiddio parthed tramgwydd materol. Mae hyn yn cynnwys unrhyw waith sydd angen i nodi tramgwydd materol a'r holl waith i sicrhau yr unionir y tramgwydd. Mae hefyd yn cynnwys unrhyw ymchwiliad neu weithredu gorfodi, hyd at y pwynt pan mae ymyrraeth yr HSE, parthed y toriad materol, wedi ei gwblhau neu y cychwynnir erlyniad neu y cyflwynir adroddiad i'r Procuradur Ffisgal yn yr Alban. Un enghraifft o'r fath yw pan wneir penderfyniad i gau ymchwiliad ac na chynigir erlyniad.

23 Bydd y ffi yn berthnasol i bob ymyrraeth ble nodir tramgwydd materol ac unrhyw waith cysylltiedig arall (paragraff 24). Ble nodir tramgwydd materol yn ystod ymweliad, mae costau ar gyfer yr ymweliad cyfan yn adferadwy, o'r pwynt mynediad ar y safle i'r pwynt gadael. Mae hyn oherwydd bod angen i'r arolygydd asesu cymhwyster y deiliad dyletswydd i reoli'r risgiau'n effeithiol a chydymffurfio â'r gyfraith er mwyn gwneud dyfarniad priodol ynglŷn â sut i weithredu parthed tramgwyddau materol. Mae'r broses hon yn cychwyn ar ddechrau'r ymweliad ac yn parhau i'r diwedd.

24 Mae costau ar gyfer gwaith arall cysylltiedig hefyd yn adferadwy, yn cynnwys:

- ysgrifennu hysbysiadau o ymyrraeth ac adroddiadau;
- paratoi a chyflwyno hysbysiadau gwella neu wahardd;
- gwaith dilynol i sicrhau cydymffurfriad (ee ymweliadau safle, galwadau ffôn, gohebiaeth e-bost, adolygu dogfennaeth a ddarparwyd);
- cymryd datganiadau;
- cymorth arbenigol (ble ceir cymorth arbenigol gan HSL neu drydydd parti, adferir y costau hynny ar y gyfraith berthnasol a godir gan HSL neu'r trydydd parti – gweler paragraff 28);
- casglu gwybodaeth/tystiolaeth;
- Asesu'r casgliadau a dogfennaeth yr archwiliad, ymchwiliad a chasgliadau gorfodi;
- Cofnodi casgliadau a gwybodaeth archwilio, ymchwilio a gorfodi;
- adolygu ymchwiliadau i sicrhau cynnydd ac y dilynir trywydd ymholiad priodol; ac
- Ymchwil yn ymwneud â'r tramgwydd materol sydd angen i gyflawni'r tasgau a amlinellwyd uchod.

25 Mae ymyrraethau'r HSE yn cael eu monitro i sicrhau eu bod yn deg, trylwyr ac effeithiol. Bydd costau ymyrraethau a gwaith cysylltiedig yn amrywio yn ddibynnol ar gymhlethdod y materion. Gallai ymyrraethau a gwaith cysylltiedig gymryd mwy o amser, er enghraifft, ble ceir toriadau lluosog yn galw am ganllaw manwl ar ragofalon, neu dramgwyddau neu ragofalon cymhleth. Mae nifer o ffactorau yn

effeithio ar faint o amser a gymer, megis:

- ymateb ac anghenion y deiliad dyletswydd;
- amgylchiadau unigol yr achos;
- cymhlethdod y tramgwydd ac ehangder y gwaith sy'n ofynnol ar yr HSE i reoleiddio'n effeithiol parthed toriadau materol;
- lefel arbenigedd yr arolygydd; a
- safonau cydymffuriad a ganfuwyd ar y pryd.

26 Ni fydd yr HSE yn adfer costau ar gyfer yr un gwaith ddwywaith. Golyga hyn y na chodir y gyfradd bob awr ar gyfer swyddogaethau megis hyfforddi arolygwyr, teithio i ac o ymweliadau, rheoli, a gwaith gan staff gweinyddol. Mae costau'r gweithgareddau hyn eisoes wedi eu cynnwys yn y cyfrifiad cyfradd bob awr a ddisgrifir yn Atodiad 2.

Labordy Iechyd a Diogelwch a chyfraniad gan drydydd parti

27 Yn rhan o'i swyddogaethau, efallai y bydd angen i'r HSE gontractio elfennau o waith i'r Labordy Iechyd a Diogelwch (HSL), sy'n gweithredu fel asiantaeth fewnol o'r HSE ond gyda'i gyfraddau adfer costau ei hun, neu i drydydd partiön allanol (e.e. ymgynghorwyr masnachol, technegol a gwyddonol). Gellir contractio gwaith o'r fath naill ai i ddarparu arbenigedd atodol neu am nad oes gan yr HSE/HSL yr adnoddau arbenigol perthnasol ar y pryd.

28 Pan fydd gwaith yn cael ei gontractio i HSL neu drydydd parti, bydd gwir gost y gwasanaeth i'r HSE yn cael ei adfer gan y deiliad dyletswydd. Bydd hyn i'w weld fel eitem ar wahân ar yr anfoneb a bydd y gyfradd yn wahanol i, ac o bosibl yn uwch na, chyfradd bob awr yr HSE. Mae gan yr HSE drefniadau i sicrhau fod ansawdd a hyd y gwaith a gontractiwyd i HSL a thrydydd partiön yn cael ei fonitro a'i reoli'n briodol.

29 Rhaid i gontractwyr allanol nodi unrhyw wrthdaro buddiannau a rhaid darparu datganiad nad oes gwrthdaro buddiannau o'r fath yn bodoli cyn dechrau ar y gwaith. Fel arfer, mae'r HSE yn ceisio gwirio gyda'r deiliad dyletswydd perthnasol nad oes unrhyw sensitifrwydd masnachol o ran defnyddio cwmni trydydd parti penodol ar fater neu safle penodol. Mae'r HSE yn ceisio dod o hyd i ddewis arall os yw sensitifrwydd o'r fath yn bodoli, ond mae'n cadw'r hawl i ymgysylltu â'r contractwr perthnasol ble ceir rhesymau gweithredol neu iechyd a diogelwch sy'n drech.

30 Ble mae angen galw ar yr HSL neu drydydd parti ar fyrder, efallai na fydd yr HSE mewn sefyllfa i allu gwirio gyda deiliaid dyletswydd p'un a oes unrhyw sensitifrwydd masnachol yn bodoli.

31 Bydd gwaith a gyflawnir gan yr HSL neu ddarparwyr trydydd parti yn amodol i drosolwg rheolaeth priodol i sicrhau fod costau sy'n codi yn rhesymol, y gwneir gwaith yn effeithlon, a bod ffioedd a godir yn ymwneud â gwaith a wnaed parthed tramgwydd materol yn unig.

Toriadau materol yn ymwneud â deiliaid dyletswydd lluosog

32 Ble mae mwy nag un deiliad dyletswydd yn gyfrifol am dramgwydd materol, bydd yr arolygydd yn dosrannu'r amser a dreuliwyd yn archwilio, ymchwilio, neu orfodi'r tramgwydd, i'r fath raddau ag y gellir priodoli'r gwaith a wnaed o fewn rheswm, i bob deiliad dyletswydd. Bydd dyraniad y gwaith ar y cyfan yn unol â'r

amser a dreuliodd yn rheoleiddio'r tramgwydd materol a gyflawnodd pob un.

33 Dan rai amgylchiadau, bydd hyn yn golygu deiliad dyletswydd yn talu ffi am waith rheoleiddiol a wnaed gyda chyflogeion deiliad dyletswydd arall. Er enghraifft, ble mae cyflogeion un deiliad dyletswydd yn dystion i dramgwydd gan ddeiliad dyletswydd arall, bydd y deiliad dyletswydd sy'n tramgwyddo yn talu'r ffi, ni cyflogwr y tyst.

34 Dan rai amgylchiadau, efallai y bydd un deiliad dyletswydd yn cyflawni tramgwydd materol ble nad yw rhai eraill. Yn yr achosion hyn, dim ond y costau y gellir eu priodoli'n rhesymol i'r deiliad dyletswydd sy'n cyflawni tramgwydd materol fydd yn cael eu hadfer. Ni chodir ffi ar y deiliaid dyletswydd eraill.

Trefniadau gweinyddol ac ariannol

35 Mae'r HSE yn gyfrifol am weinyddu'r cynllun FFI, yn cynnwys cyhoeddi anfonebau ac, os oes angen, casglu dyledion. Fel arfer bydd anfonebau yn cael eu hanfon at gyfeiriad gweithle'r deiliad dyletswydd yr ymwelwyd â hi. Os yw deiliaid dyletswydd yn dymuno newid y cyfeiriad ar gyfer anfonebau yn y dyfodol, dylent gysylltu â'r HSE yn y cyfeiriad a ddarperir (gweler Cysylltiadau am gyngor a chanllaw). Os yw'r deiliad dyletswydd mewn gweithle dros dro (e.e. safleoedd adeiladu, ffeiriau neu landlordiaid eiddo domestig am resymau diogelwch nwy), anfonir anfonebau at brif gyfeiriad y busnes neu sefydliad.

36 Bydd yr anfoneb yn cynnwys yr wybodaeth ganlynol:

- y cyfnod o amser y mae'r anfoneb yn cyfeirio ato;
- dadansoddiad o'r gweithgareddau neu wasanaethau y gellir adfer costau ar eu cyfer ar gyfer pob aelod o'r HSE dan sylw, a'r HSL neu drydydd partïon;
- faint o amser a dreuliodd yn erbyn pob gweithgaredd;
- cyfanswm y ffi sy'n daladwy; a
- disgrifiad cryno o'r gwaith a gyflawnwyd.

37 Cyflawnir swyddogaethau anfonebu a chasglu dyledion yn ganolog yn yr HSE. Nid yw arolygwyr yn gyfrifol am gyhoeddi anfonebau nac am unrhyw weithredoedd dilynol yn ymwneud â thalu neu beidio talu anfonebau. Ni fyddant yn gallu cynorthwyo gydag ymholiadau ynglŷn ag anfonebau neu daliad. Dylid codi unrhyw ymholiadau yn ymwneud â thaliad gyda'r Tîm FFI (gweler Cysylltiadau ar gyfer cyngor a chanllaw).

38 Fel arfer, darperir anfonebau i ddeiliaid dyletswydd pob deufis, o fewn 30 niwrnod gwaith i ddiwedd pob cyfnod anfonebu. Cyhoeddir anfonebau ym mis Ionawr, Mawrth, Mai, Gorffennaf, Medi a Thachwedd.

39 Gan fod ffioedd FFI yn codi o ganlyniad i'r HSE yn cyflawni ei swyddogaethau statudol, mae'r ffioedd hyn y tu allan i gwmpas TAW, felly ni chodir TAW.

40 Bydd taliad yn ddyledus i'r HSE o fewn 30 niwrnod gwaith i ddyddiad yr anfoneb a bydd yr HSE yn mynd ar drywydd unrhyw fethiant i dalu yn ôl â'i gweithdrefnau casglu dyledion ei hun.

41 Ble fo'r HSE yn ceisio adfer dyledion gan yr FFI trwy'r llysoedd, dim ond trwy'r broses sifil y gellir adfer y costau hyn. Ni all yr HSE adfer y costau FFI hyn trwy'r llysoedd troseddol (llysoedd ynadon neu'r Goron).

Gweithdrefn i ddelio ag ymholiadau ac anghydfod ynglŷn ag anfonebau

42 Nod yr HSE yw datrys pob ymholiad neu anghydfod yn brydlon, yn deg ac mewn modd tryloyw. Gallai ymholiadau gynnwys:

- dull talu;
- cyfanswm anfoneb;
- newid cyfeiriad anfoneb;
- ceisiadau am wybodaeth bellach;
- cadarnhad fod y gwaith yn angenrheidiol; ac/neu
- materion eraill, megis a oedd tramgwydd materol neu'r amser a gymerwyd i reoleiddio tramgwydd materol gyda deiliad dyletswydd penodol.

43 Dylid anfon pob ymholiad ac anghydfod at y cyfeiriad a ddarparwyd yn Cysylltiadau ar gyfer cyngor a chanllaw.

44 Byddwn yn edrych ar bob ymholiad cychwynnol am anfoneb fel ymholiad ble nad oes ffi yn daladwy. Os nad yw deiliaid dyletswydd yn fodlon â'r ymateb i'w hymholiad, gallant nodi anghydfod ffurfiol â'r anfoneb, neu'r rhan o anfoneb sy'n destun dadl, trwy ysgrifennu at yr HSE a chyflwyno'r rhesymau penodol pam nad ydynt yn credu fod y newid yn ddilys. Mae ffi yn daladwy am ddelio ag anghydfodau (paragraff 47).

45 Nid yw'n ofynnol i ddeiliaid dyletswydd dalu'r anfoneb sy'n destun dadl, na'r rhan o anfoneb sy'n destun dadl nes bydd yr anghydfod wedi ei ddatrys (os cynhelir yr anghydfod). Ble ceir anghydfod am ran o anfoneb, bydd yr HSE yn cytuno gyda'r deiliad dyletswydd ar werth y swm sy'n destun dadl ac yna dylai'r deiliaid dyletswydd dalu gweddill yr anfoneb nad yw'n destun dadl.

46 Mae dwy lefel i'r weithdrefn anghydfodau. Ar lefel 1, mae'r anghydfod yn cael ei adolygu gan uwch reolwr yr HSE sy'n annibynnol o'r gadwyn reoli sy'n gyfrifol am y gwaith a greodd yr anfoneb. Ar lefel 2, ystyrir yr anghydfod gan banel o staff HSE a chynrychiolydd annibynnol. Disgrifir y gweithdrefnau yn fanylach yn *Procedure for queries and disputes for FFI* (www.hse.gov.uk/fee-for-intervention/queries-and-disputes.pdf).

47 Bydd yr HSE yn talu ei gostau wrth ddatrys ymholiadau ynglŷn ag anfonebau. Fodd bynnag, bydd yr HSE yn adfer unrhyw gostau o anghydfod nad yw'n cael ei gynnal, yn seiliedig ar gyfradd bob awr yr FFI o £124 wedi ei losogi gan yr amser a gymerwyd i ddatrys yr anghydfod. Os na chynhelir anghydfod, mae'r deiliad dyletswydd yn dal yn gyfrifol am dalu swm llawn yr anfoneb neu anfonebau HSE sy'n weddill ynghyd â chostau atodol delio â'r anghydfod. Os cynhelir anghydfod, bydd yr anfoneb neu anfonebau yn cael eu haddasu neu ganslo. Os talwyd yr anfoneb, bydd y swm a dalwyd yn cael ei fantoli yn erbyn unrhyw anfoneb sy'n ddyledus i'r HSE (os yn berthnasol) neu ei ad-dalu'n rhannol neu'n llawn yn ddibynnol ar yr amgylchiadau.

48 Mae'r trefniadau presennol ar gyfer apelio yn erbyn hysbysiad gwella neu wahardd heb newid – dylai deiliaid dyletswydd gyfeirio at yr wybodaeth ar apelïadau a ddarparwyd gan yr arolygydd pan gyhoeddwyd yr hysbysiad. Bydd apelïadau yn erbyn hysbysïadau gorfodi'r HSE yn dal i gael eu clywed gan driw'nlys cyflogaeth, dylid anfon y ffurflen a geir yn nhaflen ETS19 a ddarperir gan yr arolygydd gyda'r hysbysiad gwella neu wahardd at y triw'nlys cyflogaeth yn chyflwyno'r sail dros apelio. Dylid cyfeirio pryderon am anfonebau yn ymwneud â hysbysïadau at y cyfeiriad a ddarparwyd yn Cysylltiadau ar gyfer cyngor a chanllaw, ac ni ddylid eu hanfon at y triw'nlys cyflogaeth.

49 Ni fydd gweithdrefn bresennol yr HSE i ddelio â chwynion am ymddygiad proffesiynol staff yr HSE yn newid – dylai deiliaid dyletswydd gysylltu â rheolwr llinell y cyflogai perthnasol yn yr HSE. Bydd y rheolwr llinell yn ymchwilio i'r cwyn ac yn hysbysu'r achwynydd o unrhyw weithredu. Ceir rhagor o wybodaeth am gwynion ar wefan yr HSE (www.hse.gov.uk/pubns/hsc14.htm).

Ad-daliadau

50 Rhaid i'r HSE ad-dalu rhan o'r ffi neu'r ffi a dalwyd dan y cynllun FFI os y'i talwyd trwy 'wall'. Mae hyn yn cynnwys anghydfod ble dangosir yn ddilynol nad oedd ffi benodol yn daladwy neu ei bod yn daladwy gan rywun arall. Bydd maint yr ad-daliad yn ddibynnol ar yr amgylchiadau penodol a, ble bynnag fo'n rhesymol bosibl, bydd yr HSE yn ymdrechu i nodi unrhyw gostau penodol y gellir eu priodoli i'r tramgwyddau sy'n destun dadl i ganiatáu ad-daliad priodol.

51 Ble fo'r HSE yn dod ag erlyniad ond na cheir collfarn, bydd yn ad-dalu unrhyw ffi a dalwyd sy'n ymwneud yn gyfan gwbl ac yn benodol â'r drosedd ble na chafwyd collfarn. Mewn rhai achosion, gellir cyhuddo nifer o wahanol droseddau ac efallai y bydd collfarn ar rai cyhuddiadau ond nid rhai eraill.

52 Eto, bydd yr HSE yn ad-dalu unrhyw ffioedd sy'n ymwneud yn gyfan gwbl neu'n benodol ag unrhyw drosedd a gyhuddwyd na arweiniodd at gollfarn. Fodd bynnag, efallai y gellir priodoli'r ffi i'r drosedd neu droseddau a arweiniodd at gollfarn ac i drosedd neu droseddau nad ydynt. Os gellir priodoli'r ffioedd a briodolir i drosedd neu droseddau na arweiniodd gollfarn lawn cymaint â'r drosedd neu droseddau a wnaeth, yna ni wneid ad-daliad am y byddai'r gwaith wedi bod angen ei gwblhau beth bynnag.

53 Os oes elfennau penodol o'r ffi y gallwyd eu priodoli yn gyfan gwbl a llwyr i'r drosedd neu droseddau na arweiniodd at gollfarn, yna fe wneir ad-daliad yn rhan o'r ffi honno. Er enghraifft, os yw'r HSE yn cael adroddiad arbenigol, a oedd yn ymwneud â throedd a gyhuddwyd na arweiniodd at gollfarn yn unig, yna byddai'r rhan honno o'r ffi yn cael ei had-dalu hyd yn oed os arweiniodd troseddau eraill (nad oedd angen adroddiad o'r fath) at gollfarn.

54 Felly hefyd, ble fo'r HSE yn cyflwyno hysbysiadau gwella neu wahardd, a bod un neu fwy yn cael eu canslo gan driwlynys cyflogaeth, bydd yr HSE yn ad-dalu costau neu rannau o gostau a adferwyd fel yr amlinellwyd uchod.

Cysylltiadau i gael cyngor a chanllaw

Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
Tîm FFI
6.4 Redgrave Court
Merton Road
Bootle
L20 7HS

Ffôn: 0300 0033 190

E-bost: feeforintervention@hse.gsi.gov.uk

Sut mae'r FFI yn cyd-fynd ag ymagwedd bresennol yr HSE i orfodaeth?

55 Mae arolygwyr erioed wedi gwneud penderfyniadau ynglŷn ag a yw busnesau yn cydymffurfio â chyfraith iechyd a diogelwch a sut i weithredu os ydynt yn tramgwyddo. Bydd deall sut y gwneir y penderfyniadau hyn yn eich helpu chi i'w deall pan fydd FFI yn daladwy. Bydd hefyd yn eich helpu i ystyried pa mor dda ydych chi'n cydymffurfio â'r gyfraith er mwyn i chi allu unioni materion sydd angen sylw cyn i arolygydd ymweld.

56 Pan fydd arolygwyr yn canfod tramgwyddau (toriadau'r gyfraith), defnyddiant ddau fframwaith hir sefydlog i'w tywys wrth benderfynu ar weithredu gorfodol priodol sydd wedi ei baru i'r amgylchiadau a ganfyddant. Y rhain yw'r Datganiad Polisi Gorfodi (www.hse.gov.uk/pubns/hse41.pdf) a'r Model Rheoli Gorfodi (www.hse.gov.uk/enforce/emm.pdf).

Gwneud penderfyniadau gorfodi

Datganiad Polisi Gorfodi (EPS)

57 Mae'r EPS yn gofyn i'r HSE a'i arolygwyr i gydymffurfio ag egwyddorion penodol, yn cynnwys:

- cymesuredd – i sicrhau bod graddfa'r gweithredu gorfodol yn gymesur i'r amgylchiadau;
- targedu – i sicrhau bod gan yr HSE fwy o gyswllt â busnesau sy'n cyflwyno'r risg fwyaf difrifol;
- cysondeb – i sicrhau bod sefyllfaoedd tebyg yn wynebu ymatebion tebyg;
- tryloywder – i sicrhau fod busnesau yn deall beth a ddisgwylir ganddynt; ac
- atebolrwydd – i sicrhau fod gan yr HSE bolisiâu a safonau pendant i'r cyhoedd ddefnyddio i farnu ei berfformiad.

Model Rheoli Gorfodaeth (EMM)

58 Pan fydd arolygydd yn canfod tramgwydd/gweithredu'n groes i ddeddf iechyd a diogelwch, mae'r EMM yn eu helpu i benderfynu a yw rhybudd neu gyngor llafar yn ddigonol neu a fyddai hysbysiad ysgrifenedig, hysbysiad gwella neu rybudd ac ati yn fwy priodol. Mewn achosion penodol, e.e. ymchwiliadau digwyddiadau, rhaid i arolygwyr gadw cofnod ffurfiol o sut maent wedi gweithredu'r broses.

59 Mae gweddill y canllaw hwn yn esbonio'r EMM a sut mae'n berthnasol i'r FFI.

60 Y man cychwyn i benderfyniad gorfodi arolygydd yw nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig â gweithgaredd penodol.

61 Bydd arolygydd yn defnyddio'r EMM i ystyried y canlynol cyn gweithredu ymhellach ar gyfer pob risg a nodwyd:

- **Cam 1** Beth yw'r risg wirioneddol?
- **Cam 2** Pa safon o gydymffurfiaid mae'r gyfraith yn galw amdano a pha lefel o risg sydd ar ôl wrth gydymffurfio â'r gyfraith?
- **Cam 3** Nodi'r bwloch risgiau – pa mor bell yw'r wir safon o gydymffurfiaid o'r safon ddisgwyliedig o gydymffurfiaid?
- **Cam 4** Nodi'r ffactorau deiliaid dyletswydd – beth yw ymagwedd a pherfformiad presennol a blaenorol y cyflogwr tuag at iechyd a diogelwch?
- **Cam 5** Nodi'r ffactorau lles y cyhoedd (a elwir yn ffactorau strategol o fewn EMM) - a yw gweithredu gorfodol yn bodloni ffactorau lles y cyhoedd?

62 Eglurir y camau hyn yn fanylach isod.

63 Unwaith y bydd y ffactorau hyn wedi eu hystyried, bydd yr arolygydd yn penderfynu a oes angen gweithredu gorfodol ac, os felly, ar ba ffurf ddylai hyn fod. Gallai hyn gynnwys:

- rhybudd llafar;
- cadarnhad ysgrifenedig o'r angen am welliant – mae hyn yn cynnwys hysbysiad o dramgwydd;
- hysbysiad gwella;
- hysbysiad gwahardd ble mae'r risgiau mor ddifrifol fel bod rhaid atal gwaith ar unwaith (neu hysbysiad gwahardd gohiriedig ble mae'r gwaith yn cael ei atal, er enghraifft, pan fydd yn ddiogel i wneud hynny);*
- erlyniad yn y llysoedd.

Cam 1 – Beth yw'r risg wirioneddol??

64 Wrth wynebu toriad posibl o gyfraith iechyd a diogelwch, mae arolygwyr yn ystyried tri chwestiwn i helpu pennu'r gwir lefel o risg.

Pa niwed allai ddigwydd?	Pa mor ddrwg allai rhywun gael ei anafu neu niweidio eu hiechyd? A fyddai unrhyw anaf neu salwch yn ddifrifol, arwyddocaol neu fychan?
Pa mor debygol ydi hi y bydd y digwyddiad yn arwain at yr anaf neu salwch yn digwydd?	A yw'n annhebygol iawn, posibl neu hynod debygol?
Faint o bobl sy'n debygol o gael eu heffeithio?	A fydd un, nifer neu lawer o bobl wedi eu heffeithio?

Cam 2 – Pa safon o gydymffurfiaid mae'r gyfraith yn galw amdano?

65 Mae'r arolygydd yn nodi'r gyfraith neu safonau perthnasol y gellir eu gorfodi dan y gyfraith. Yn aml mae'r rhain yn caniatáu lefel dderbyniol o risg, sy'n parhau i fod yn isel hyd yn oed wedi cydymffurfio â'r gyfraith neu'r safon. Er enghraifft, mae'r gyfraith yn caniatáu defnydd o ysgolion symudol ar oledd ar gyfer gwaith risg isel, am gyfnod byr. Mewn achosion eraill, ni oddefir prin ddim lefel o risg, megis gwaith ar doeau bregus. Mae'r arolygydd yn ystyried pa lefel o risg sy'n parhau wedi cydymffurfio â'r safon gyfreithiol honno.

Cam 3 – Nodi'r bwlch risg

66 Yna mae'r arolygydd yn cymharu'r gwir risg gyda'r safon gyfreithiol o gydymffurfiaid sy'n ofynnol i nodi'r 'bwlch risg' rhyngddynt. Gallai'r bwlch rhwng y gwir risg a'r safon gyfreithiol o gydymffurfiaid gofynnol fod yn:

- enwol (dibwys);
- cymedrol;
- sylweddol; neu
- eithafol.

* Ni chymhwysir ffactorau deiliaid dyletswydd a lles y cyhoedd (strategol) i'r penderfyniad i gyflwyno hysbysiad gwahardd gan fod y risgiau mor ddifrifol bod rhaid atal gwaith ar unwaith neu fod yr ataliad wedi ei oedi, er enghraifft, nes ei bod yn ddiogel i atal y gwaith. Gweithredir egwyddorion EMM i'r sefyllfa wedi cyflwyno'r hysbysiad gwahardd i arwain y penderfyniad ar a oes angen gweithredu gorfodol pellach.

67 Wedi i'r arolygydd benderfynu ar y bwlch risg, yna maent yn ystyried pa mor glir yw'r safon gyfreithiol ei hun. Er enghraifft, mae rhai safonau wedi eu diffinio'n glir dan gyfraith iechyd a diogelwch, tra bod eraill angen dehongliad.

68 Gellir rhannu cyfraith iechyd a diogelwch, neu safonau perthnasol y gellir eu gorfodi dan y gyfraith, i dri chategori bras.

- **Diffiniedig** - mae'r safon yn glir mewn cyfraith ac nid yw angen llawer neu fawr ddim dehongli. Er enghraifft, mae'r Rheoliadau Darparu a Defnyddio Offer Gwaith 1998 yn galw am gymryd mesurau effeithiol i atal mynediad at unrhyw far stoc tro.
- **Sefydledig** – nid yw'r safon wedi ei gosod mewn cyfraith, ond mae yna safonau sy'n gyffredinol hysbys a chyhoeddedig sydd, os y'u bodlonir, yn arddangos cydymffurfiaid gyda'r gyfraith. Er enghraifft, mae'r Rheoliadau Darparu a Defnyddio Offer Gwaith 1998 yn galw am gymryd mesurau effeithiol i atal mynediad at ddarnau peryglus peirianwaith. Gan amlaf, mae hyn yn golygu darparu gardiau effeithiol i atal mynediad at y parth peryglus. Mae canllaw Pwyllgor Cynghori diwydiant Argraffu'r HSE, *Guide to the safe use of power-operated paper-cutting guillotines*, yn darparu'r safon fanwl sefydledig ar ddiogelu'r peiriannau hyn i atal mynediad at rannau peryglus.
- **Deongliadol** – nid yw'r safon wedi ei gosod mewn cyfraith ac nid oes unrhyw safonau a gydnabyddir yn gyffredinol na chyhoeddedig. Rhaid dehongli'r gyfraith o'r egwyddorion cyntaf a'u gweithredu ar gyfer yr amgylchiadau penodol a'r risg dan sylw.

Wrth weithredu egwyddorion EMM, bydd arolygwyr yn ystyried pa un o'r categorïau hyn sy'n cymwys i'r safonau perthnasol. Bydd hyn yn dylanwadu ar eu penderfyniad ynglŷn â'r lefel briodol o orfodi.

69 Gan ddefnyddio'r EMM, mae arolygwyr yn ystyried sut mae'r bwlch risg yn berthnasol i'r safon gyfreithiol i'w helpu i ddod i ddisgwyliad cychwynnol ynglŷn â'r gweithredu gorfodol priodol:

- Ble fo'r bwlch risg yn eithafol, a'r safon gyfreithiol wedi ei diffinio'n glir neu sefydledig, hysbysiadau gorfodi yw'r gweithredu gorfodi cychwynnol disgwylidig ac fe ystyrir erlyniad.
- Ble fo'r bwlch risg yn arwyddocaol, a'r safon gyfreithiol wedi ei diffinio'n glir neu sefydledig, hysbysiadau gorfodi yw'r gweithredu gorfodi cychwynnol disgwylidig.
- Ble fo'r bwlch risg yn gymedrol a'r safon gyfreithiol yn sefydledig neu'n ddeongliadol, y disgwyliad yw llythyr (hysbysiad neu dramgwydd).
- Ble fo'r bwlch risg yn enwol, waeth beth yw'r safon gyfreithiol, y disgwyliad yw rhybudd llafar.

70 Weithiau nid yw'r gyfraith yn seiliedig ar reoli neu isafu niwed corffol yn uniongyrchol, er enghraifft, pan fydd y canlynol yn ofynnol:

- asesiadau risg;
- darparu cyfleusterau toiled a lles (ble nad oes eu hangen i reoli risg);
- cofnodion – i gadw dogfennaeth megis cofnodion o archwiliad statudol o offer codi;
- i adrodd digwyddiadau penodol.

71 Os na fodlonir gofynion o'r fath, gall danseilio gwaith system rheoli iechyd a diogelwch effeithiol. Yn achos cyfleusterau lles, gallai olygu nad yw safonau sylfaenol pwysig yn cael eu bodloni, megis darparu cyfleusterau toiled neu ymolchi hygrych i bawb.

Yn yr achosion hyn, mae arolygwyr yn dilyn proses debyg i'r hyn a amlinellwyd uchod gan ddefnyddio adran trefniadau cydymffurfiad a gweinyddol yr EMM. Maent yn ystyried pa mor dda y bodlonir y safonau cyfreithiol ar gyfer cydymffurfiad (h.y. a yw'r gwir ddiffyg yn fychan, annigonol neu absennol), o gymharu â pha mor glir yw'r safon gyfreithiol (diffiniedig, sefydledig neu ddeongliadol). Yna maent yn ffurfio barn ynglŷn â sut i weithredu ac yn ystyried yr un ffactorau ag yr amlinellwyd ym mharagraffau 75-77 y canllaw hwn cyn gwneud penderfyniad terfynol.

72 Hyd yn hyn, mae'r dadansoddiad o'r bwlch risg neu gydymffurfiad yn erbyn eglurder y safon gyfreithiol wedi arwain at farn gychwynnol o sut i weithredu. Cyn gwneud penderfyniad terfynol, bydd yr arolygydd yn ystyried dwy ffactor bellach - ffactorau deiliaid dyletswydd a lles y cyhoedd, a sefydlir yng nghamau 4 a 5. O ganlyniad, gallai'r disgwyliadau gorfodi cychwynnol newid i lefel uwch neu is o weithredu gorfodol.

Cam 4 – Nodi'r ffactorau deiliaid dyletswydd

73 Mae'r arolygydd yn ystyried ymagwedd flaenorol a phresennol y deiliad dyletswydd, a pherfformiad tuag at iechyd a diogelwch i'w helpu i benderfynu ar y gweithredu gorfodi mwyaf priodol. Mae'r cwestiynau a ystyriwyd yn cynnwys:

- A oes gan y deiliaid dyletswydd hanes o weithredu gorfodi perthnasol yn eu herbyn?
- A oes ganddynt hanes o ddigwyddiadau tebyg?
- A ydynt yn osgoi cydymffurfio ar bwrpas i sicrhau enillion masnachol?
- A oes hanes archwilio gwael, rhesymol neu dda?
- A ydynt yn cydymffurfio'n gyffredinol yn y rhan fwyaf o feysydd?
- A ydynt yn arddangos y cymhwyster a medrau angenrheidiol i ddarparu hyder y byddant yn delio'n briodol â'r risgiau?

74 Ble fo'r safonau mor bell islaw'r safon gyfreithiol o gydymffurfiad fel bod y lefel o risg yn annerbyniol, bydd gan y ffactorau deiliaid dyletswydd lai o ddylanwad ar y gweithredu gorfodol.

Cam 5 – Nodi ffactorau lles y cyhoedd (strategol)

75 Yn olaf, mae'r arolygydd yn ystyried sut y gallai lles ehangach y cyhoedd ddylanwadu ar y penderfyniad gweithredu. Mae'r cwestiynau a ystyriwyd yn cynnwys:

- A fydd y gweithredu gorfodi a awgrymwyd er lles y cyhoedd ehangach?
- A fydd pobl fregus megis yr ifanc, henoed neu'r amhrofiadol wedi eu diogelu'n well gan y gweithredu gorfodol arfaethedig?
- A fydd y gweithredu yn hyrwyddo cydymffurfiad cynaliadwy?
- A fydd yn gosod esiampl ac yn gweithredu fel rhybudd neu ataliad i eraill?
- A fydd yr isafswm safonau cyfreithiol wedi eu bodloni?
- A fydd y gweithredu yn fanteisiol i'r rhai allai fod wedi eu heffeithio gan y risg?

76 Gan amlaf, gwneir penderfyniad ynglŷn â gweithredu gorfodi i'w gymryd (os o gwbl) yn ystod y cam hwn.

Adolygu

77 Os yw'r arolygydd yn dod i'r casgliad y gellid dilyn ymagwedd wahanol i weithredu gorfodi, yna byddant yn adolygu eu casgliadau gyda chefnogaeth gan eu rheolwr os oes angen.

Sut mae EMM yn berthnasol i FFI?

78 Bydd yr arolygydd yn gweithredu egwyddorion EMM wrth benderfynu pa weithredu gorfodi sy'n briodol parthed tramgwydd. Bydd yr FFI yn daladwy os bydd arolygydd:

- yn nodi torri cyfraith iechyd a diogelwch;
- o'r farn bod y torri cyfraith yn ddigon difrifol i alw am hysbysiad ysgrifenedig (h.y. mae'n dramgwydd materol); ac
- yn hysbysu'r sawl sy'n torri'r gyfraith o'u barn, yn ysgrifenedig, trwy hysbysiad o dramgwydd, hysbysiad gwella neu wahardd neu erlyniad.

79 Os yw hyn yn wir, fe adferir costau o gychwyn yr ymchwiliad neu archwiliad pan nodwyd y tramgwydd materol, hyd at y pwynt pan fydd gwaith yr HSE, parthed y tramgwydd, wedi ei gwblhau.

80 Gallai'r HSE ddod i'r casgliad nad yw'r drosedd yn dramgwydd materol, ac felly na fydd yr FFI yn daladwy. Mae hyn yn cynnwys pan:

- fydd arolygydd yn rhoi rhybudd neu gyngor llafar oherwydd bod y drosedd yn fechan; ac/neu
- fydd arolygydd yn rhoi cyngor ysgrifenedig nad yw'n ymwneud â thrangwydd, e.e. i gadarnhau trafodaeth rhwng deiliad y deiliaid dyletswydd ac arolygydd ynglŷn â sut ellid gweithredu i sicrhau arfer gorau sy'n mynd tu hwnt i gydymffurfiaid cyfreithiol.

81 Bydd yr hysbysiad ysgrifenedig gan yr HSE yn egluro pa doriadau sy'n doriadau materol, ble mae'r FFI yn daladwy.

Enghreifftiau o FFI ar waith

82 Mae'r enghreifftiau yn yr adran hon yn arddangos rhai sefyllfaoedd ble gellid pennu fod risgiau yn debygol o arwain at anaf personol neu salwch difrifol ac y byddai'n debygol o arwain at orfodi ysgrifenedig ffurfiol (e.e. hysbysiad o dramgwydd, hysbysiad gwella neu wahardd, erlyniad), ac felly bydd yr FFI yn daladwy. Dengys yr enghreifftiau yn yr adran nesaf (paragraffau 86-128) sut y gweithredir yr EMM yn fanylach mewn rhai sefyllfaoedd penodol.

83 Yn yr adran hon, disgrifir pob mater yn gyffredinol, ac yna nodir ambell enghraifft fwy penodol. Mynegol yn unig yw'r enghreifftiau hyn, nid rhestrau cyflawn, i helpu arddangos yr amrywiaeth o sefyllfaoedd allai ysgogi FFI. Maent yn cynrychioli ystod o faterion a gallai arolygwyr ddelio â rhai ohonynt mewn ymweliadau. Nid yw'n rhestr wirio o'r holl faterion y bydd arolygydd yn eu trafod pan fyddant yn ymweld. Mae'r materion wedi eu dosbarthu i bedwar maes eang

- **risgiau iechyd** – ble gallai methiant i gydymffurfio arwain at amlygiad i sylweddau niweidiol fel llwch, mygdarth a chemegau neu ynni fel s n neu ddirgryniad;
- **risgiau diogelwch** – ble mae effeithiau posibl yn uniongyrchol oherwydd anaf trawmatig, e.e. cyswllt gyda pheiriannau sy'n symud, syrthio o uchder neu gyswllt â cherbydau;
- **troseddau lles** – gofynion sydd naill ai'n rhan o'r rheolaethau gofynnol ar gyfer risgiau iechyd, neu sy'n hawl sylfaenol i bobl mewn cymdeithas fodern;
- **rheoli risgiau iechyd a diogelwch** – gofynion sy'n ymwneud â gallu i reoli risgiau iechyd a diogelwch i lefel dderbyniol gynaliadwy.

Risgiau iechyd

84 Gall amlygiad nad yw wedi ei reoli'n ddigonol i rai mathau o lwch, mygdarthau a chemegau, ac i ynni fel sŵn a dirgryniad, achosi anabledd parhaol neu farwolaeth. Tra bod rhai effeithiau i'w gweld ar unwaith, yn amlach dim ond beth amser wedi amlygiad fydd symptomau'n dod i'r amlwg. Gallai hyn fod nifer o flynyddoedd yn ddiweddarach, ond pan fyddant maent yn aml yn anghildroadwy..

Asbestos

85 Fe'i gelwir y llofrudd cudd, gall amlygiad i ffibrau asbestos achosi clefydau marwol a difrifol o ganser i glefydau ysgyfaint gwanychol. Mae'n atebol am oddeutu 4,000 o farwolaethau'r flwyddyn. Mae amlygiad fel arfer oherwydd gweithio mewn neu ger deunydd wedi ei ddifrodi sy'n cynnwys asbestos gan anadlu lefelau uchel o ffibrau asbestos.

86 Gallai rhai enghreifftiau o fethiannau gynnwys:

- deunydd wedi ei ddifrodi sy'n cynnwys asbestos mewn cyflwr gwael neu wedi difrodi, gan arwain at ryddhau ffibrau posibl;
- gweithgareddau cynnal a chadw a gyflawnir ar ddeunydd wedi ei ddifrodi a amheuir i gynnwys asbestos gyda rheoliadau cyfyngedig neu ddim o gwbl yn arwain at ryddhau ffibrau posibl;
- ni ddeliwyd â chanlyniad arolwg asbestos mewn cynllun rheoli cyfredol ar gyfer deunydd wedi ei ddifrodi sy'n cynnwys asbestos, gan arwain at fethiant i reoli'r risg;
- nid yw staff cynnal a chadw yn ymwybodol fod asbestos yn bresennol mewn adeilad, neu beth yw ei leoliad (os cadarnhawyd fod asbestos yn bresennol).

Asthma

87 Gwyddom fod nifer o sylweddau y mae pobl yn agored iddo yn y gwaith yn achosi asthma (e.e. blawd, llwch llif, resinau, mygdarth resin sodr, isocyanadau, llwch grawn, hylifau gwaith metel). Mae asthma galwedigaethol yn cynnwys byrder gwynt difrifol all atal pobl rhag gwneud y pethau symlaf, fel cerdded i fyny'r grisiau. Ni fydd rhai dioddefwyr yn gallu gweithio eto.

88 Gallai rhai enghreifftiau o fethiannau gynnwys:

- peidio archwilio ac/neu gynnal systemau echdynnu ar gyfnodau addas, fel nad yw eu heffeithlonrwydd wedi ei sicrhau;
- peiriannau mewn gweithdai peirianeg yn defnyddio hylifau gwaith metel heb fecanweithiau effeithiol i atal creu tarth olew;
- peidio darparu gwybodaeth, cyfarwyddyd a hyfforddiant addas na digonol i gyflogeion sy'n debygol o fod yn agored i niwed, ynglŷn â defnydd o reoliadau peirianeg ac unrhyw offer amddiffynnol personol a ddarparwyd;
- peidio darparu goruchwyliaeth iechyd addas i gyflogeion sydd wedi eu hamlygu i asthmagenau er mwyn nodi unrhyw arwyddion cynnar o afiechyd a delio â'r achos.

Mannau cyfyng

89 Mae man cyfyng yn le sydd wedi ei amgáu'n arwyddocaol (er nad yw o reidrwydd wedi ei amgáu'n gyfan gwbl), a ble gall afiechyd neu anaf difrifol ddigwydd o sylweddau peryglus, diffyg ocsigen, gwresogi gormodol neu trwy ffibrau neu ffrwydradau, neu draflyncu (e.e. graen mewn seilo).

90 Mae nifer o bobl yn cael eu lladd neu anafu'n ddifrifol yn y Deyrnas Unedig pob blwyddyn mewn manau cyfyng. Mae'r rhain yn digwydd ledled amrywiaeth o ddiwydiannau, o'r rhai sy'n ymwneud â gwaith prosesu cymhleth i lestri storio syml fel seilos graen.

91 Gall y rhai sy'n cael eu lladd hefyd gynnwys pobl sy'n ceisio achub eraill yn gweithio mewn man cyfyng heb hyfforddiant ac offer priodol.

92 Gallai rhai enghreifftiau o fethiannau gynnwys:

- gweithio mewn man cyfyng heb ddealltwriaeth o'r risgiau na mesurau rhagofalus;
- diffyg rhagofalon digonol ar gyfer y gwaith yn cynnwys systemau gwaith diogel, trefniadau neu offer achub mewn argyfwng, gweithdrefnau neu staff hyfforddedig;
- diffyg monitro aer addas pan fo angen i brofi'r atmosffer cyn mynd i mewn i fan cyfyng, neu yn ystod y gwaith.

Dirgryniad llaw a braich

93 Daw dirgryniad llaw a braich o ddefnydd o offer pŵer llaw ac mae'n achosi salwch arwyddocaol (anhwylderau poenus ac sy'n analluogi o'r llestri gwaed, nerfau a chymalau yn y dwylo, yn cynnwys colli cryfder yn y dwylo). Unwaith y bydd y niwed wedi ei wneud, mae'n barhaol. Gallai rhai enghreifftiau o fethiannau gynnwys:

- amlygiad i ddirgryniad yn fwy na, neu'n debygol o fod yn fwy na, y gwerthoedd gweithredu a osodwyd mewn rheoliadau ble mae'n rhesymol ymarferol i ddileu neu leihau amlygiad;
- nid yw cyflogeion dan risg o ddirgryniad wedi eu hysbysu ynglŷn â'r risgiau a sut i'w lleihau;
- nid yw amlygiad i ddirgryniad wedi ei leihau i fod mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol trwy fabwysiadu dulliau gweithredu amgen megis cylchdroi gwaith i waith gyda llai o ddirgryniad.

Sylweddau peryglus

94 Mae yna ddeholiad eang o sylweddau peryglus allai fod yn bresennol yn y gweithle ac mae'r ystod o effeithiau afiechyd y gallant achosi'r un mor eang, e.e. gall anadlu llwch neu fygdarth arwain at glefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint neu ganser, a gall cyswllt croen gyda rhai sylweddol arwain at ddermatitis.

95 Gallai rhai enghreifftiau o fethiannau gynnwys:

- torri neu lifo sych cynnyrch carreg neu concriid yn creu lefelau peryglus o lwch heb unrhyw offer echdyniad neu resbiradol amddiffynnol;
- peidio archwilio ac/neu gynnal systemau echdynnu yn drylwyr ar gyfnodau addas, ac felly nid yw eu heffeithlonrwydd wedi ei sicrhau;
- gwybodaeth, cyfarwyddyd a hyfforddiant annigonol i gyflogeion ynglŷn â'r risgiau a rhagofalon;
- diffyg cyfleusterau ymolchi addas ble mae hylendid personol da yn fesur rheoli iechyd, e.e. wrth ddefnyddio sment neu olew sy'n cyflwyno risg o losgi a dermatitis; ac
- ysgubo sych llwch llif ar lawr siop gwaith coed yn arwain at swm uchel o lwch yn yr aer.

Legionellosis, yn cynnwys clefyd y llengfilwyr

96 Mae pobl yn dal clefyd y llengfilwyr (math allai fod yn angheuol o niwmonia) a chlefydau eraill tebyg, llai difrifol wedi anadlu diferion bach o dd r yn yr aer, yn aml wedi ei greu gan dyrrau oeri sy'n cynnwys y bacteria.

97 Mae clefyd y llengfilwyr yn ffurf all fod yn farwol o niwmonia, gyda symptomau tebyg i fflw. Gall achosion o'r clefyd achosi marwolaethau lluosog ac/neu salwch difrifol ymysg y boblogaeth leol yn ogystal â gweithwyr.

98 Gallai rhai enghreifftiau o fethiannau gynnwys:

- diffyg rhaglen trin dŵr neu fonitro, neu ddiffyg glanhau neu ddiheintiad o fewn system 'dan risg';
- arwyddion o lygredd organig ac/neu galch yn y system ddŵr; a
- tŵr oeri/offer sydd â risg legionella ac ni cheir asesiad neu unigolyn penodedig i reoli'r system reolaeth.

Anhwylderau'r cyhyrau a'r esgyrn

99 Mae'r term anhwylder y cyhyrau a'r esgyrn yn cynnwys unrhyw anaf, difrod neu anhwylder i'r cymalau neu feinweoedd eraill yn y cymalau uchaf/isaf neu'r cefn. Gall y rhain ddigwydd wrth godi pwysau trwm, anhadrin â llaw, neu o waith ailadroddus. Dyma'r achosion mwyaf cyffredin o afiechyd galwedigaethol yn effeithio ar filiwn o bobl y flwyddyn.

100 Gallai rhai enghreifftiau o fethiannau gynnwys:

- risg heb ei rheoli sylweddol o waith trin â llaw neu waith ailadroddus ble mae rheoliadau rhesymol ymarferol ar gael;
- methiant i ddarparu cyfarwyddiadau/hyfforddiant sy'n briodol i'r dasg ble mae risgiau arwyddocaol; a
- methiant i wneud cyflogeion yn ymwybodol o ffactorau risg a'r angen i adrodd symptomau yn gynnar, systemau trin a defnydd rheoliadau ac/neu addasiadau gweithle.

Sŵn

101 Mae colli clyw o ganlyniad i sŵn yn anghildroadwy. Gall difrod i glustiau o ganlyniad i amlygiad i lefelau uchel o sŵn hefyd arwain at ganu parhaol yn y clustiau (tinitws). Mae tua 17,000 o bobl yn y Deyrnas Unedig yn dioddef o golli clyw o ganlyniad i waith.

102 Gallai rhai enghreifftiau o fethiannau gynnwys:

- peidio lleihau amlygiad i lefelau sŵn uchel trwy reoli yn y ffynhonnell, e.e. darparu tawelyddion ar beiriannau wedi pweru gan aer, neu leihau amlygiad, e.e. trwy amgáu peiriannau swllyd, darparu llochesi sŵn neu gyfyngu faint o amser a dreulir mewn mannau swllyd;
- peidio darparu amddiffyniad clyw personol addas i gyflogeion y mae eu hamlygiad personol dyddiol i sŵn yn debygol o fod yn uchel; a
- peidio darparu goruchwyliaeth iechyd ddigonol ble mae cyflogeion yn debygol o gael eu hamlygu i lefelau sŵn uchel.

Risgiau diogelwch

Syrthio o uchder

103 Mae syrthio o uchder yn achos cyson ac adnabyddus o farwolaeth, neu anaf difrifol fel torri esgyrn a pharlys rhannol neu lwyr.

104 Gallai rhai enghreifftiau o fethiannau gynnwys:

- diffyg cynllunio ac/neu oruchwyllo gwaith ar uchder;
- peidio sicrhau fod gweithwyr yn gymwys ar gyfer gwaith ar uchder;
- peidio dewis offer mynediad digonol ble mae syrthio o uchder yn bosibiliad;
- peidio archwilio a chynnal offer mynediad, megis sgaffald, harneisiau neu ysgolion, i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn effeithiol wrth atal neu leihau anaf;
- peidio darparu rheolyddion digonol i sicrhau mynediad diogel i arwynebau to

- bregus, megis dalen sment asbestos, dalenni plastig neu oleuadau to;
- defnyddio ffyrch neu baled ar ffyrch wagen ffroch godi i rywun weithio ar uchder, yn hytrach na llwyfan waith addas; a
- defnyddio ysgolion/ysgolion bach wedi difrodi/ddiffygiol, e.e. holltau mewn ysgolion pren, asiad wedi cracio ar gysylltyddion gris/camfa, grisiau neu gamfeydd ar goll a dyfeisiadau gwrth lithro ar goll.

Hylifau fflamadwy

105 Mae methiant i reoli hylifau fflamadwy yn arwain at risgiau amlwg ac oblygiadau o dannau a ffrwydradau.

106 Gallai rhai enghreifftiau o fethiannau gynnwys:

- drymiau o doddyddion wedi eu storio mewn gweithdy heb gaeadau yn arwain at dân/ffrwydrad a risgiau iechyd;
- hylifau fflamadwy wedi eu storio mewn cwpwrdd pren heb unrhyw amddiffyniad yn erbyn arllwysiadau; a
- defnyddio hylifau fflamadwy yng nghyffiniau ffynonellau taniad, fel peintio chwistrell siasi cerbyd mawr mewn gweithdy gyda socedi trydanol a switshis heb eu diogelu.

Hylifau fflamadwy

107 Mae methiant i reoli hylifau fflamadwy yn arwain at risgiau amlwg ac oblygiadau o dannau a ffrwydradau.

108 Gallai rhai enghreifftiau o fethiannau gynnwys:

- drymiau o doddyddion wedi eu storio mewn gweithdy heb gaeadau yn arwain at dân/ffrwydrad a risgiau iechyd;
- hylifau fflamadwy wedi eu storio mewn cwpwrdd pren heb unrhyw amddiffyniad yn erbyn arllwysiadau; a
- defnyddio hylifau fflamadwy yng nghyffiniau ffynonellau taniad, fel peintio chwistrell siasi cerbyd mawr mewn gweithdy gyda socedi trydanol a switshis heb eu diogelu.

Offer codi

109 Gall codi llwythau achos nifer o risgiau, yn cynnwys methiant offer megis bachau, cadwyni a slingiau i weithrediadau codi heb eu cynllunio neu oruchwylio'n ddigonol i symud llwythi trwm yn agos at bobl.

110 Gallai rhai enghreifftiau o fethiannau gynnwys:

- defnyddio offer codi annigonol gan arwain iddo fethu, troi drosodd ac ati;
- defnyddio slingiau codi wedi eu cynnal yn wael heb system i'w nodi ac archwilio;
- parhau i ddefnyddio offer codi wedi cael hysbysiad o ddiffyg difrifol a nodwyd gan unigolyn cymwys yn ystod archwiliad trylwyr;
- dim archwiliad trylwyr statudol o offer codi;
- dim system archwilio neu gynnal i sicrhau fod offer codi yn dal yn ddiogel i'w ddefnyddio; ac
- gweithgaredd codi heb eu cynllunio, goruchwylio neu wneud yn ddiogel.

Nwy petrolewm hylifedig (LPG)

111 Mae LPG yn nwy hynod fflamadwy a ddefnyddir yn eang sydd fel arfer yn cael ei gadw dan wasgedd mewn tanc neu silindr. Gall gollyngiadau LPG o bibwaith metel nad yw wedi ei gynnal yn dda neu grydedig, a thanciau, neu danciau wedi eu lleoli neu ddiogelu'n annigonol, arwain at dannau a ffrwydradau.

112 Gallai rhai enghreifftiau o fethiannau gynnwys:

- tanciau LPG heb unrhyw amddiffyniad yn erbyn effaith ble mae cerbydau'n cael eu defnyddio yn agos at y tanc;
- deunyddiau hylosg o amgylch tanciau LPG;
- pibwaith metelig LPG wedi ei gladdu heb amddiffyniad cyrydiad ac nad yw'n amodol i archwiliad rheolaidd ac achlysurol; a
- pellter gwahaniad annigonol rhwng ardaloedd storfa silindr LPG ac adeiladau meddianedig.

Gardiau peiriannau

113 Mae nifer o beiriannau yn gallu achosi marwolaeth neu anafiadau difrifol. Maent yn amrywio o'r cludfelt cyffredin a'i bwlïau cysylltiedig i beiriannau mwy arbenigol megis llifoedd crwn, gweisg pŵer a driliau pedestal.

114 Mae anafiadau fel arfer yn digwydd oherwydd nad oes gardiau digonol yn eu lle ac y gallai gweithwyr ddod i gysylltiad yn hawdd neu'n rhagweladwy gyda'r rhannau symudol peryglus o beiriant.

115 Gallai rhai enghreifftiau o fethiannau gynnwys:

- gard wedi torri neu ar goll ar gyfer chwyllolwyn neu offer gwasg pŵer;
- mynediad at frathiad i mewn rholeri ar beiriant yn amlygu gweithredwyr a staff cynnal a chadw i risg o wasgu a cholli croen am nad yw gardiau brathiad syml yn eu lle;
- dim gardiau neu ddyfeisiadau diogelwch effeithiol ar grafanc ac ebill dril piler neu fraich reiddiol;
- gard annigonol o'r rholer wedi ei bweru ar system cludydd wedi ei osod â belt trwm, tynn allai dynnu braich cyflogai i mewn a'i wasgu;
- system ddiogel annigonol i wirio fod gard yn ei le pan fydd angen; a
- trechu cloeon mewnol gard a gynlluniwyd i sicrhau na ellir defnyddio'r peiriant heb fod y gard yn ei le'n briodol ar bwrpas.

Systemau gwasgedd

116 Defnyddir sawl math o systemau gwasgedd, yn cynnwys boeleri, gwresogyddion stêm, systemau aer cywasgedig, sosbenni pwysedd, ffyrnau aerglos a chyfnwidwyr gwres. Maent oll yn cynnwys ynni wedi storio allai, os yw'n cael ei ryddhau ar gam, achosi anaf difrifol neu farwolaeth. Gallai rhai enghreifftiau o fethiannau gynnwys:

- derbynnydd aer a ddefnyddir yn rheolaidd sydd heb ei gynnal na'i archwilio'n drylwyr a heb ei farcio gydag unrhyw gyfyngiad gweithredu diogel; a
- boeler stêm a ddefnyddir heb unrhyw gynllun archwilio ysgrifenedig neu raglen cynnal a chadw ataliol, neu sy'n cael ei wasanaethu gan staff heb hyfforddiant.

Cynnal a chadw diogel

117 Mae cynnal a chadw yn allweddol i gadw gwaith ac offer mewn cyflwr diogel, ond mae'n cyflwyno ei risgiau ei hun. Yn aml, dim ond pan fydd yr elfen ddiogelu gyntaf, megis gard ar beiriant peryglus neu falf ar adran o waith proses, wedi ei dynnu y gellir cyflawni gwaith cynnal a chadw. Mae systemau gwaith diogel yn allweddol i sicrhau diogelwch dan yr amgylchiadau hyn.

118 Gallai rhai enghreifftiau o fethiannau gynnwys:

- cyflogeion nad ydynt yn ynysu rhannau peryglus o beiriannau cyn cyflawni gwaith cynnal a chadw, glanhau ac ati; a

- ni chyflawnwyd system trwydded i weithio effeithiol, sy'n awdurdodi gwaith yn dilyn rhagofalon penodol yn unig, megis ynysu offer neu brofi ar gyfer sylweddau niweidiol, ar waith perygl uchel.

Cludiant gweithle

119 Pob blwyddyn, mae nifer arwyddocaol o bobl yn cael eu lladd neu'n dioddef anafiadau arwyddocaol o gael eu taro gan gerbydau neu gael cerbydau yn troi drosodd arnynt neu mewn systemau cludiant wedi eu cynllunio neu reoli'n wael mewn gweithfannau. Yr allwedd i gludiant diogel yw sicrhau gyrwyr diogel, safle diogel a cherbydau diogel.

120 Gallai rhai enghreifftiau o fethiannau gynnwys:

- peidio sicrhau safle diogel, e.e. llwybrau traffig heb eu diffinio'n dda, rhwystrau ar aelïau neu ffyrdd, goleuo gwael, arwynebau anghyson a diffyg gwahanu cerddwyr a cherbydau ble fo hyn yn rhesymol ymarferol;
- peidio darparu cerbydau diogel, e.e. llywio diffygiol, breciau, drychau, goleuadau, a dim cynorthwyon bacio'n ôl ble fo angen; a
- peidio sicrhau gyrwyr diogel, e.e. gyrwyr wagen fforch godi sydd naill heb eu hyfforddi neu'n anghymwys.

Adeiladu

121 Mae'r diwydiant adeiladu yn un o'r diwydiannau mwyaf a mwyaf peryglus ym Mhrydain Fawr gyda mwy na 40 o farwolaethau a 3000 o anafiadau difrifol megis torri esgyrn a thorri aelodau i ffwrdd pob blwyddyn.

122 Yn ogystal â'r enghreifftiau eraill yn yr adran hon allai fod yn berthnasol yn y diwydiant adeiladu, megis syrthio o uchder, cludiant gweithle, asbestos, defnyddio offer codi ac ati, gallai rhai o enghreifftiau o fethiant gynnwys:

- peidio trefnu symudiad diogel cerddwyr a cherbydau ar y safle;
- peidio cadw safle adeiladu mewn trefn dda, e.e. mynediad diogel i ac o'r gweithle, storfa ddiogel o ddeunyddiau ac ati;
- cyflawni gwaith dymchwel neu ddatgymalu mewn modd anniogel;
- methiant i atal perygl rhag cloddiad yn syrthio;
- methiant i sicrhau fod gweithwyr wedi eu hyfforddi ac yn gymwys i reoli'r risgiau iddynt ac eraill, e.e. gyrwyr craeniau yn gweithredu craeniau, rheolwyr sy'n gymwys i reoli safle, gweithredwyr offer symudol, sgaffaldwyr i godi a datgymalu sgaffald yn ddiogel;
- methiant i sicrhau sefydlogrwydd strwythurau ar y safle, yn cynnwys strwythurau dros dro; a
- aflonyddu deunydd sy'n cynnwys asbestos heb ei reoli neu heb ei reoli'n ddigonol yn ystod gwaith adeiladu/dymchwel.

Toriadau lles

123 Mae cyfleusterau lles digonol yn bwysig i iechyd ble fydd pobl yn gweithio gyda sylweddau peryglus, e.e. er mwyn iddynt allu golchi eu dwylo cyn bwyta i osgoi gwenwyniad. Mewn achosion eraill, nid yw darparu toiledau, cyfleusterau ymolchi ac ati yn lleihau risg, ond mae'n hawl sylfaenol i bobl sy'n gweithio mewn cymdeithas fodern.

124 Gallai rhai enghreifftiau o fethiannau gynnwys ble mae cyflogion:

- heb fynediad hygyrch i doiledau sy'n gweithio;
- heb gyfleusterau ymolchi hygyrch ac addas, ee dim dŵr tap poeth ac oer;
- heb gyflenwad digonol o ddŵr yfed;

- heb gyfleusterau gorffwys digonol i fwyta prydau, ble mae prydau yn cael bwyta'n rheolaidd yn y gwaith, a bod bwyd yn debygol o gael ei halogi.

Rheoli risgiau iechyd a diogelwch

125 Mae'r enghreifftiau yn y canllaw hwn o ganlyniad ar adegau i fethiant 'unigryw'. Fodd bynnag, yn aml maent yn dystiolaeth o fethiant cyffredinol i reoli'r risgiau. Gall hyn fod oherwydd rheolaeth annigonol o iechyd a diogelwch sy'n bodoli neu wedi bod yn digwydd ers peth amser.

126 Gallai rhai enghreifftiau o fethiannau rheoli gynnwys:

- dim trefniadau effeithiol i reoli iechyd a diogelwch (yn cynnwys trefniadau argyfwng) ble mae risgiau arwyddocaol yn bresennol, megis peidio ystyried goblygiadau diogelwch prosesau newydd, neu beidio rheoli contractwyr ar y safle yn effeithiol;
- dim asesiad o risgiau i bobl fregus, megis pobl ifanc neu fenywod beichiog, ble mae risgiau arwyddocaol iddynt yn bresennol (e.e. amlygiad i blwm neu fercwri);
- dim mynediad at gyngor iechyd a diogelwch mewnol neu allanol ble nad yw risgiau arwyddocaol wedi eu rheoli'n ddigonol;
- peidio darparu gwybodaeth gynhwysfawr neu hyfforddiant i gyflogaion ar risgiau arwyddocaol a rhagofalon ble mae gwybodaeth neu hyfforddiant o'r fath yn fesur rheoli allweddol; a
- peidio gwneud asesiad risg addas a digonol ble nad yw risgiau arwyddocaol wedi eu rheoli'n ddigonol a ble nad yw'r mesurau rheoli manwl wedi eu teilwra i'r amgylchiadau yn syml (e.e. i nodi a gweithredu systemau rheoli traffig diogel sy'n addas i safle penodol, neu i nodi ffynonellau sŵn a datrysiadau ar gyfer ystod o beiriannau swmllyd).

Enghreifftiau o weithrediad EMM

127 Mae'r canlynol yn esiamplau o sefyllfaoedd ble gweithredwyd EMM mewn manylder i helpu tywys y gweithredu gorfodol i'w gyflawni. Efallai y byddai'n ddefnyddiol i chi ddefnyddio'r EMM mewn cysylltiad â'r EMM. **Dan yr FFI, mae costau gwaith yr HSE parthed enghreifftiau 1 i 4 yn adferadwy**, ac nid yw costau enghraifft 5 yn adferadwy. Ble mae'r canlyniad gorfodi yn 'lythyr', mae hyn yn cynnwys hysbysiad o dramgwydd.

Enghraifft 1: Erlyniad

Risg iechyd: Amlygiad i darth hylif gwaith metel

Amgylchiadau

128 Defnyddiodd cwmni peirianeg gyfaint mawr o hylifau gwaith metel i oeri ac iro offer a chydrannau peiriant yn ystod peiriannu cydrannau. Canfuwyd bod nifer o'u cyflogeion yn dioddef o asthma galwedigaethol yn ymwneud â'u hamlygiad i darth hylif gwaith metel.

129 Ymchwiliodd arolygydd yr HSE a chanfod nad oedd y cwmni wedi gweithredu ar ofynion ysgrifenedig blaenorol yr HSE i wella rheolaeth o darth hylif gwaith metel. Roedd y rheoliadau y gofynnwyd amdanynt yn flaenorol yn cynnwys rheoli glendid yr hylifau gwaith metel, amgáu'r peiriannau gydag echdyniad digonol, a chyfarwyddiadau ar pryd fyddai'n ddiogel i'r gweithredwr agor yr amgaeadau peiriant a ddarparwyd i atal tarth rhag dianc i'r gweithle.

130 Roedd y cwmni wedi cynyddu cynhyrchiant yn sylweddol ers ymweliad blaenorol yr HSE. Roedd y tarth hylif gwaith metel yn awr yn glir i'w weld yn yr aer, nid oedd glendid yr hylifau wedi ei reoli, ac nid oedd nifer fawr o beiriannau wedi eu hamgáu yn llwyr, ac ni ddarparwyd echdyniad. Hefyd, ni ddarparwyd cyfarwyddiadau a goruchwyliaeth i sicrhau oediad amser priodol ar gyfer agor amgaeadau peiriant.

Dadansoddiad bwlch risg

131 **Risg gwirioneddol:** (Tablau 2.1 a 2.2 yr EMM): Roedd diffyg rheoli hylif, amgaead, echdyniad, a chyfarwyddiadau / goruchwyliaeth ar oediadau amser priodol i agor yr amgaeadau yn creu risg **debygol** o salwch difrifol (**anaf personol difrifol**) yn deillio o amlygiad i darth hylif gwaith metel.

132 **Safonau cydymffuriad cyfreithiol i'w cyflawni** (Tabl 3 yr EMM): Mae'r Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd 2002 yn sefydlu safon **ddiffiniedig** sy'n galw am y rhagofalon a ddisgrifiwyd uchod i atal neu reoli amlygiad i sylweddau peryglus megis tarth hylif gwaith metel yn ddigonol. Cefnogir hyn gan ganllaw **sefydledig** manwl *Mist control: inhalation risks* (www.hse.gov.uk/pubns/guidance/mw01.pdf). Mae'r safon i'w gweithredu yn yr achos hwn yn **sefydledig**. Byddai darparu'r rheoliadau hyn yn arwain at **ddim** tebygolrwydd neu debygolrwydd **dibwys** o effaith iechyd difrifol (**anaf personol difrifol**).

133 **Bwlch risg** (Tablau 2.1 a 2.2 yr EMM): Gan fesur hyn yn erbyn y tabl bwlch risg yn yr EMM, mae'r bwlch risg yn **eithafol**.

134 **Disgwyliad gorfodi cychwynnol** (Tabl 5.1 yr EMM): Y disgwyliad gorfodi cychwynnol ar gyfer bwlch risg **eithafol** gyda safon **sefydledig** yw hysbysiad gwella ac **ystyried erlyniad**.

135 **Ffactorau deiliaid dyletswydd** (Tabl 6 a thablau llif yn yr EMM): Mae yna hanes gorfodi blaenorol clir, ysgrifenedig yn ymwneud â tharth hylif gwaith metel a

hanes digwyddiad blaenorol yn y cwmni, gyda nifer o achosion o ddiagnosis o niwed gwirioneddol ddifrifol yn ymwneud â'r tramgwyddau. Mae safon gyffredinol amodau yn wael ac roedd hyder yr arolygydd y byddai'r risgiau yn cael eu rheoli yn ddigonol yn y dyfodol yn gyfyngedig. Nid oes tystiolaeth i'r deiliaid dyletswydd ceisio mantais economaidd fwriadol wrth fethu â chydymffurfio â'r gyfraith. Mae'r disgwyliad gorfodi yn parhau i fod yn **hysbysiad gwella** ac **erlyniad**.

136 Ffactorau **lles y cyhoedd** (Tabl 7 a thablau llif yn yr EMM): Dan yr amgylchiadau, mae darparu hysbysiad gwella i sicrhau y darperir y rheoliadau gofynnol, ac erlyn y cwmni er lles y cyhoedd ehangach ac yn bodloni disgwyliadau'r cyhoedd o weithredu oherwydd y bydd gwelliant mwy hirdymor, safon gyfreithiol cydymffurfiaid a'r fantais i gyflogeion wedi ei gyflawni. Hefyd, mae'r diystyrwch i gyngor clir blaenorol yn galw am weithredu cosbol trwy erlyniad. Ni effeithir ar grwpiau agored i niwed gan fod y gweithwyr yn gyflogeion profiadol.

Disgwyliad gorfodi

137 Mae'r risg ac amgylchiadau'r methiant i gydymffurfio â gofynion clir mor ddifrifol fel bod y ffactorau deiliad dyletswydd a lles y cyhoedd yn atgyfnerthu'r angen am weithredu gorfodi cadarn yn yr achos hwn, gan arwain at **hysbysiad gwella** i wella safonau ac **erlyniad**.

Enghraifft 2: Hysbysiadau gwahardd a gwella

Risg diogelwch: Gweithio ar uchder ar lwyfan gwaith anniogel

Amgylchiadau

138 Gwelwyd cyflogai yn sefyll ar ffyrch wagen fforch godi wedi eu codi, heb lwyfan gwaith diogel, i wneud gwaith cynnal a chadw ar nifer o unedau awyru ar wal allanol ffatri. Roedd y ffyrch tua 2.5m uwchlaw'r llawr concrid. Roedd disgwyl i'r gwaith gymryd tua diwrnod.

139 Golyga'r diffyg llwyfan waith diogel gyda rheiliau gard a byrddau blaen y droed digonol fod y cyflogai dan risg arwyddocaol o farwolaeth neu anaf personol difrifol os byddai'n syrthio o'r ffyrch. Mae yna hanes digwyddiadau sefydledig o bobl yn syrthio o ffyrdd wagenni fforch godi.

140 Dan yr amgylchiadau hyn, mae'r EMM yn disgwyl i'r arolygydd ystyried hysbysiad gwahardd i reoli'r risg trwy atal gwaith fel ei bod yn hynod annhebygol y bydd y cyflogai'n cael ei anafu. Felly mae'n debygol y bydd arolygydd yn cyhoeddi hysbysiad gwahardd i ddelio â'r risg ddifrifol hon. Yna byddai'r EMM yn weithredol i helpu penderfynu ar unrhyw weithredu gorfodi atodol sydd angen.

Dadansoddiad bwlch risg

141 **Gwir risg** (Tablau 2.1 a 2.2 yr EMM): Mae unrhyw gwmp ar goncrid o uchder o 2.5m yn debygol o achosi **marwolaeth neu anaf personol difrifol**. Dan yr amgylchiadau a ddisgrifiwyd, ystyrir bod tebygolrwydd cwmp o'r fath yn **bosibiliad** fel isafswm.

142 **Safonau cydymffurfiaid cyfreithiol i'w cyflawni** (Tabl 3 yr EMM): Mae'r Rheoliadau Gweithio ar Uchder 2005 yn darparu safon **ddiffiniedig** sy'n galw am ddethol a defnyddio offer addas i weithio ar uchder, gan atal cwmp rhag digwydd. Mae hyn yn cynnwys darparu a defnyddio cywir o lwyfan gweithio ddiogel briodol, megis lifft siswm, craen casglu ffrwythau (llwyfan waith ddirychafol symudol), neu, ar gyfer gwaith achlysurol, llwyfan waith bwrpasol wedi ei gosod yn ddiogel ar ffyrch wagen fforch godi. Byddai darparu a defnyddio'r systemau a ddisgrifiwyd uchod yn arwain at ddim tebygolrwydd neu debygolrwydd **dibwys** o gwmp yn arwain at **farwolaeth neu anaf difrifol**.

143 **Bwlch risg** (Tablau 2.1 a 2.2 yr EMM): Gan fesur hyn yn erbyn y tabl bwllch risg yn yr EMM, mae'r bwllch risg yn **eithafol**.

144 **Disgwyliad gorfodi cychwynnol** (Tabl 5.1 yr EMM): Ar gyfer bwllch risg **eithafol** gyda safon **ddiffiniedig**, y disgwyliad gorfodi cychwynnol yw **hysbysiad gwella ac ystyried erlyniad**. Ble bynnag y cyhoeddwyd hysbysiad gwahardd, efallai y bydd ffactorau deiliaid dyletswydd hefyd yn galw am ystyried erlyniad.

145 **Ffactorau deiliaid dyletswydd** (Tabl 6 tablau llif yn yr EMM): Nid oes unrhyw hanes gorfodi na digwyddiad blaenorol yn ymwneud â materion gweithio ar uchder ar gyfer y deiliad dyletswydd hwn, ac nid oes unrhyw wir niwed wedi deillio o'r digwyddiad. Mae hanes archwilio a'r amodau cyffredinol ar gyfer y deiliad dyletswydd yn rhesymol ac nid oedd eu methiant i gydymffurfio â'r gyfraith o ganlyniad i geisio mantais economaidd fwiadol. Roedd hyder yr arolygydd yn eu gallu i reoli risg yn gyfyngedig o ystyried eu diffyg gwybodaeth a chymhwyster ar faterion gweithio ar uchder.

146 **Ffactorau lles y cyhoedd** (Tabl 7 a thablau llif yn yr EMM): Roedd y deiliad dyletswydd yn bwriadu parhau i gwblhau'r gwaith, ac i wneud gwaith pellach ar uchder yn y dyfodol. Felly, mae cyhoeddi hysbysiad gwella er lles y cyhoedd ehangach gan ei fod yn targedu adnoddau ar risg barhaus allweddol yn yr eiddo, ac sy'n bodloni disgwyliadau cyhoeddus o weithredu parthed sefyllfa adnabyddus, risg uchel. Ni effeithir ar grwpiau agored i niwed gan fod y cyflogai dan sylw yn gyflogai profiadol. Byddai hysbysiad gwella yn cyflawni gwelliant mwy hirdymor a byddai'r safon gydymffurfiaid gyfreithiol yn cael ei bodloni tra'n sicrhau manteision i gyflogaion.

Disgwyliad gorfodi

147 Er y gallai'r hysbysiad gwahardd ddelio â'r risg benodol o bobl yn sefyll ar ffyrch wagen fforch godi, bydd angen hysbysiad gwella o hyd i sicrhau fod gan y cwmni system effeithiol i ddethol a defnyddio offer priodol ar gyfer gwaith ar uchder arall. Awgryma'r ffactorau deiliaid dyletswydd a lles y cyhoedd bod **hysbysiad gwella** yn briodol i sicrhau nad yw'r sefyllfa yn codi eto.

Enghraifft 3: Hysbysiad gwella

Risg diogelwch: Gardiau peiriannau Amgylchiadau

148 Mae cwmni papur gwastraff yn defnyddio gilofîn torri papur i leihau maint papur gwastraff fel ei fod yn ddigon bach i'w fwydo i'r peiriant byrnu heb achosi rhwystr. Gall rhannau peryglus y gilofîn (clamp, medrydd cefn, a llafn torri wrth iddo dorri yn erbyn gwely'r peiriant) wasgu a thorri breichiau, dwylo a bysedd i ffwrdd.

149 Mae ochr weithredu flaen y peiriant wedi ei ddiogelu'n ddigonol, ond mae diffyg o ran diogelu cefn y peiriant, sy'n caniatáu mynediad gan y gweithredwr neu eraill i'r rhannau peryglus, heb eu gardio o'r peirianwaith wrth glirio cefn y peiriant. Mae'r peiriant wedi ei osod gyda'i gefn yn erbyn wal, ond roedd digon o le i gael mynediad i'r cefn yn hawdd.

Dadansoddiad bwllch risg

150 **Gwir risg** (Tablau 2.1 a 2.2 yr EMM): Byddai cyswllt â'r peirianwaith symudol peryglus yn arwain at anaf personol difrifol. Dan yr amgylchiadau a ddisgrifiwyd, ystyrir bod y tebygolrwydd o gael mynediad at y peirianwaith symudol peryglus yn **annhebygol**.

151 **Safonau cydymffurfiad cyfreithiol i'w cyflawni** (Tabl 3 yr EMM): Mae'r Rheoliadau Darparu a Defnyddio Offer Gwaith 1998 yn galw am gymryd mesurau effeithiol i atal mynediad at ddarnau peryglus peirianwaith. Gan amlaf, mae hyn yn golygu darparu gardiau effeithiol i atal mynediad at y parth peryglus. Ceir esboniad pellach o hyn yng nghyhoeddiad Pwyllgor cynghori Diwydiant Argraffu'r HSE *Guide to the safe use of power operated paper cutting guillotines* (www.hse.gov.uk/pubns/books/power-guillotines.htm). Mae'r ail yn darparu **safon sefydledig** ar ddiogelu manwl ar gyfer y math hwn o beiriant. Mae'r safon i'w gweithredu yn yr achos hwn wedi ei sefydlu. Gyda'r peiriant wedi ei ddiogelu'n briodol, mae'r tebygolrwydd y bydd y gweithredwr yn dioddef anaf personol difrifol yn **ddim/dibwys**.

152 **Bwlch risg** (Tablau 2.1 a 2.2 yr EMM): Gan weithredu hyn i'r tabl bwch risg yn yr EMM, mae'r bwch risg yn **sylweddol** felly.

153 **Disgwyliad gorfodi cychwynnol** (Tabl 5.1 yr EMM): Ar gyfer bwch risg **sylweddol** gyda **safon sefydledig**, y disgwyliad gorfodi cychwynnol yw **hysbysiad gwella**.

154 **Ffactorau deiliaid dyletswydd** (Tabl 6 a thablau llif yn yr EMM): Nid oes hanes archwilio na gorfodi blaenorol gan nad yw'r HSE wedi ymweld yn flaenorol, ac nid oes gan y deiliaid dyletswydd unrhyw ddigwyddiadau blaenorol perthnasol. Nid oes unrhyw wir niwed wedi codi o ddefnyddio'r peiriant yn y cyflwr anniogel hwn, ac mae'r amgylchiadau cyffredinol hefyd yn rhesymol. Ni cheisiodd y deiliad dyletswydd fantais economaidd fwriadol wrth fethu â chydymffurfio â'r gyfraith. Roedd hyder yr arolygydd yn eu gallu i reoli risg yn gyfyngedig o ystyried eu diffyg gwybodaeth a chymhwyster diogelwch peiriannau. Mae'r disgwyliad gorfodi yn parhau i fod yn hysbysiad gwella.

155 **Ffactorau lles y cyhoedd** (Tabl 7 a thablau llif yn yr EMM): Mae cyhoeddi hysbysiad gwella er lles y cyhoedd ehangach gan ei fod yn targedu adnoddau ar risg barhaus allweddol yn yr eiddo, ac sy'n bodloni disgwyliadau cyhoeddus o weithredu parthed sefyllfa adnabyddus, risg uchel. Ni effeithir ar grwpiau agored i niwed gan fod y gweithredwyr y peiriant yn gyflogeion profiadol. Byddai hysbysiad gwella yn cyflawni cydymffurfiad â'r safon gyfreithiol, a gwelliant mwy hirdymor, tra'n sicrhau manteision i gyflogeion.

Disgwyliad gorfodi

156 Awgryma'r ffactorau deiliaid dyletswydd a lles y cyhoedd y gallai **hysbysiad gwella** fod yn briodol i sicrhau yr unionir y sefyllfa ac nad yw'n codi eto.

157 Gyda gwahanol ffactorau deiliad dyletswydd, megis safon dda o amgylchiadau cyffredinol a hyder arolygwyr cynyddol yn eu gallu i reoli'r risg, gellir addasu'r disgwyliad gweithredu i lythyr (hysbysiad o dramgwydd). Yn yr un modd, pe byddai hanes o orfodaeth flaenorol neu dystiolaeth o dramgwyddau materol eraill nad ydynt wedi eu rheoli, byddai'r disgwyliad gorfodi yn cynyddu.

Enghraifft 4: Llythyr (hysbysiad o dramgwyddo)

Risg iechyd: Hyfforddiant asbestos

Amgylchiadau

158 Mae cwmni aml safle mawr yn cyflogi tîm cynnal a chadw mewnol i gyflawni gwaith cynnal a mân atgyweiriadau ar ei amrywiol ffatrioedd a swyddfeydd. Yn ystod ymweliad archwilio, roedd nenfwd crog wedi difrodi yn cael ei ailosod.

159 Ni ddarparwyd gwybodaeth i'r gweithwyr am ddeunyddiau yn cynnwys asbestos, nac a oedd deunyddiau o'r fath yn bresennol yn y teils nenfwd presennol neu'r gofod nenfwd.

160 Dangosodd ymholiadau pellach bod y cwmni wedi cynnal arolygon a chofrestrau asbestos cyfredol ar gyfer eu heiddo i gyd, a bod y gofrestr asbestos ar gyfer y safle hwn yn cadarnhau fod y teils a gofod nenfwd yn yr achos hwn yn rhydd o ddeunyddiau yn cynnwys asbestos. Fodd bynnag, nid oedd y cyflogeion hyn wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth asbestos, ac nid oedd system effeithiol yn ei lle i sicrhau yr hysbyswyd gweithwyr cynnal a chadw o bresenoldeb deunyddiau yn cynnwys asbestos y gellid eu haflynyddu wrth wneud gwaith cynnal a chadw.

161 Cadarnhaodd ymholiadau fod gwaith cynnal a chadw wedi ei wneud yn flaenorol gyda deunyddiau yn cynnwys asbestos, a bod disgwyl gwneud hyn yn y dyfodol hefyd. Ni ellid cadarnhau a oedd y gweithwyr yn yr achos neu achosion blaenorol wedi aflonyddu'r asbestos neu a weithredwyd rhagofalon priodol. Gallai'r cwmni ddangos fod rhai cyflogeion wedi eu darparu â hyfforddiant ymwybyddiaeth asbestos, ac yn yr achos hwnnw nid oedd y diffyg cydymffuriad o ganlyniad i fethiant rheoli eang.

162 Mae teils a gofodau nenfwd yn aml yn cynnwys deunyddiau gydag asbestos ynddynt a gellir eu haflynyddu yn ystod gwaith cynnal a chadw fel torri, drilio a chwalu. Gallai hyn ryddhau ffibrau asbestos, gan greu perygl i gyflogeion ac eraill o gelfyddau ysgyfaint cysylltiedig ag asbestos marwol a difrifol.

Dadansoddiad bwllch risg

163 **Gwir risg** (Tabl 2.1 a 2.2 yr EMM): Creodd y diffyg system rheoli cadarn i sicrhau fod gweithwyr yn ymwybodol o waith gyda deunyddiau yn cynnwys asbestos, ynghyd â'r diffyg hyfforddiant ymwybyddiaeth i rai gweithwyr, o leiaf risg **bosibl** o effaith iechyd difrifol (**anaf personol difrifol**) yn deillio o amlygiad i ddeunyddiau yn cynnwys asbestos uwchlaw'r terfyn rheoli oherwydd amlygiad anfwriadol.

164 **Safonau cydymffuriad cyfreithiol i'w cyflawni** (Tabl 3 yr EMM): Mae'r Rheoliadau Rheoli Asbestos 2012 yn sefydlu safon **ddiffiniedig** yn gofyn am ddarparu pobl â gwybodaeth berthnasol ble maent yn debygol o aflonyddu deunyddiau yn cynnwys asbestos, ac i unrhyw weithiwr sy'n debygol o aflonyddu deunyddiau yn cynnwys asbestos yn ddarparu i fod wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth priodol. Byddai darparu hyn yn arwain at ddim tebygolrwydd annhebygol o effaith iechyd difrifol (**anaf personol difrifol**).

165 **Bwllch risg** (Tablau 2.1 a 2.2 yr EMM): Gan weithredu hyn i'r tabl bwllch risg yn yr EMM, mae'r bwllch risg yn **sylweddol** felly.

166 **Disgwyliad gorfodi cychwynnol** (Tabl 5.1 yr EMM): Y disgwyliad gorfodi cychwynnol ar gyfer bwllch risg **sylweddol** gyda safon **ddiffiniedig** yw **hysbysiad gwella**.

167 **Ffactorau deiliaid dyletswydd** (Tabl 6 a thablau llif yn yr EMM): Nid oes unrhyw hanes gorfodi blaenorol yn ymwneud â rheoli asbestos tyn y cwmni, ac nid oes unrhyw wir niwed wedi deillio o'r digwyddiad. Mae system reoli gadarn yn bodoli ar gyfer gwaith a gontractir allan. Nid oes tystiolaeth y gallai gwaith blaenorol fod wedi arwain at amlygiad i asbestos.

168 Mae'r hanes archwilio ar gyfer y deiliad dyletswydd yn rhesymol, ac mae amodau cyffredinol hefyd yn rhesymol. Ni cheisiodd y deiliad dyletswydd fantais

economaidd fwriadol wrth fethu â chydymffurfio â'r gyfraith, ac roedd asesiad yr arolygydd o reolaeth cymhwyster yn dynodi eu bod yn gwybod a deall y risgiau a rhagofalon, ac y gallai ac y byddai'n cydymffurfio. Roedd hyn yn addasu'r disgwyliad gorfodi i **lythyr** (hysbysiad o dramgwydd).

169 **Ffactorau lles y cyhoedd** (Tabl 7 a thablau llif yn yr EMM): Yn yr amgylchiadau, ni fyddai cyhoeddi hysbysiad gwella yn lles y cyhoedd ehangach na'n bodloni disgwyliadau cyhoeddus o weithredu oherwydd bydd y gwelliant mwy hirdymor, safon cydymffurfiaid cyfreithiol a mantais i'r cyflogeion yn cael ei gyflawni trwy ddefnyddio llythyr (hysbysiad o dramgwydd). Ni effeithir ar grwpiau agored i niwed gan fod y gweithwyr yn gyflogeion profiadol.

Disgwyliad gorfodi

170 O ganlyniad i ffactorau deiliad dyletswydd a lles y cyhoedd, mae'r disgwyliad gorfodi wedi ei leihau i **lythyr** (hysbysiad o dramgwydd) i hysbysu'r deiliad dyletswydd o dramgwydd. Felly byddai Hysbysiad o dramgwydd yn cael ei ddarparu i'r deiliad dyletswydd ac mae'r FFI yn daladwy. Gyda gwahanol ffactorau. Megis hanes o orfodaeth flaenorol neu dystiolaeth o dramgwyddau materol eraill nad ydynt wedi eu rheoli, byddai'r disgwyliad gorfodi yn cynyddu.

Enghraifft 5: Rhybudd llafar

Cydymffurfiaid nad yw'n seiliedig ar risg: Cofrestr sgaffald

Amgylchiadau

171 Yn ystod archwiliad o waith ailwampio adeilad, nodwyd nad oedd y cofnod archwilio ar gyfer y sgaffald mynediad wedi ei gwblhau ers 15 niwrnod. Nid oes unrhyw ddiffygion amlwg ar y sgaffald, ac mae wedi ei godi gan contractwr cyfrifol.

172 Roedd yr archwiliadau fel arfer yn cael eu cyflawni gan reolwr y safle, a fu'n absennol oherwydd salwch. Nid oedd y rheolwr safle dros dro wedi derbyn hyfforddiant ar sut i archwilio sgaffaldau, ac roedd eisoes wedi trefnu i gwmni sgaffaldau annibynnol gyflawni archwiliadau wythnosol nes y byddai rheolwr y safle'n dychwelyd i'r gwaith. Roedd archwiliad wedi ei drefnu ar gyfer y diwrnod canlynol.

173 Gan nad oedd arwyddion corfforol fod y sgaffald islaw'r safon ddiogelwch ofynnol, roedd yn briodol i ystyried y sefyllfa hon yn defnyddio adran Cydymffurfiaid a threfniadau gweinyddol yr EMM.

Dadansoddiad bwlch cydymffurfiaid

174 **Pa mor dda y mae'r safonau cyfreithiol ar gyfer cydymffurfiaid yn cael eu bodloni** (Tabl 4 yr EMM): Cadarnhaodd cofnodion y safle fod archwiliadau wythnosol wedi eu cyflawni'n flaenorol ac mai methiant unigryw oedd hyn, Ystyriodd yr arolygydd pa mor dda oedd y safon cyfreithiol ar gyfer cydymffurfiaid wedi ei bodloni, gan benderfynu ei fod yn fân ddiffyg yn hytrach na'n absennol neu annigonol.

175 **Safonau cydymffurfiaid cyfreithiol i'w cyflawni** (Tabl 3 yr EMM): Sefydlodd y Rheoliadau Gweithio o Uchder 2005 y safon **ddiffiniedig** o archwilio sgaffaldau o leiaf pob saith niwrnod.

176 **Disgwyliad gorfodi cychwynnol** (Tabl 5.2 yr EMM): Gyda **safon gyfreithiol ddiffiniedig** a diffyg cydymffurfiaid bychan, y disgwyliad gorfodi cychwynnol yw rhybudd llafar.

177 **Ffactorau deiliaid dyletswydd** (Tabl 6 a thablau llif yn yr EMM): Mae gan y

deiliad dyletswydd hanes da o gydymffurfiad, ac mae wedi ymateb yn effeithiol pob tro i gyngor rheoleiddiol. Nid oes cofnod o unrhyw faterion blaenorol gyda chofrestrau archwilio sgaffaldau, ac mae'r cwmni wedi hyfforddi pob un o'i reolwyr safle ar archwilio sgaffaldau. Mae hyfforddiant o'r fath wedi ei drefnu ond heb ei ddarparu eto i'r rheolwr safle dros dro ar y safle ailwampio.

178 Dynododd asesiad yr arolygydd o gymhwyster rheolwyr eu bod yn gwybod ac yn deall y risgiau a rhagofalon, a'u bod eisoes wedi trefnu i'r sgaffald gael ei archwilio. Ni nodwyd unrhyw faterion eraill arwyddocaol yn ystod yr ymweliad archwilio, ac roedd y sgaffald wedi ei godi i safon dda.

179 **Ffactorau lles y cyhoedd** (Tabl 7 a thablau llif yn yr EMM): Dan yr amgylchiadau, byddai lles y cyhoedd yn cael ei fodloni gyda rhybudd llafar.

Disgwyliad gorfodi

180 Y disgwyliad gorfodi oedd **rhybudd llafar**.

Atodiad 1: Cyfraith iechyd a diogelwch a orfodir gan HSE ble na ellir adfer costau dan FFI

Ni ellir codi FFI ar gyfer perfformiad o'i swyddogaethau parthed y cyfreithiau a restrir isod gan yr HSE. Mae hyn oherwydd bod grym yr HSE i godi tâl wedi ei gyfyngu i berfformiad ei swyddogaethau a gyflawnir o ganlyniad i'r 'darpariaethau statudol perthnasol' a roddwyd i'r HSE. Nid yw'r cyfreithiau a restrir yma yn ddarpariaethau statudol perthnasol.

- 1 Deddf Canolfannau Gweithgaredd (Diogelwch Pobl Ifanc) 1995
- 2 Rheoliadau Trwyddedu Gweithgareddau Antur 2004
- 3 Rheoliadau Gosodiadau Rhaffbontydd 2004
- 4 Rheoliadau'r Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 (Cynllunio Wrth Gefn) 2005 a'r Rheoliadau Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 (Cynllunio Wrth Gefn) (Yr Alban) 2005
- 5 Rheoliadau Rheoli Plaeiddiaid 1986
- 6 Rheoliadau Glanedyddion 2010
- 7 Rheoliadau Cyfarpar Trydanol (Diogelwch) 1994
- 8 Gorchymyn Trydan (Nad yw'n Ffynonellau Tanwydd Ffossil) (Cymru a Lloegr) 1990
- 9 Rheoliadau Diogelwch, Ansawdd a Pharhad Trydan 2002
- 10 Deddf Atebolwydd Cyflogwyr (Yswiriant Gorfodol) 1969
- 11 Rheoliadau Atebolwydd Cyflogwyr (Yswiriant Gorfodol) 1998
- 12 Rheoliadau Asesiad Effaith Amgylcheddol (Yr Alban) 1999
- 13 Rheoliadau Offer a Systemau Amddiffynnol a Fwriedir i'w Defnyddio mewn Atmosfferau Allai fod yn Ffrwydrol 1996
- 14 Rheoliadau Cymunedau Ewropeaidd (Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol) 2007
- 15 Rheoliadau Allforio a Mewnforio Cemegau Peryglus 2008
- 16 Deddf Tân (Yr Alban) 2005
- 17 Deddf Tân Gwylt 1951
- 18 Deddf Diogelu Bwyd a'r Amgylchedd 1985
- 19 Rheoliadau Cyfarpar Nwy (Diogelwch) 1995
- 20 Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Ymgynghori â Chyflogeion) 1996
- 21 Rheoliadau Ffynonellau Ymbelydrol Seiliedig Uchel eu Hactifedd a Ffynonellau Amddifad 2005

- 22 Gorchymyn Mewnforio Nwyddau (Rheoli) 1954
- 23 Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Ceisiadau: Ffurflenni Rhagnodedig a Gweithdrefn) 2009
- 24 Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Caffael Gorfodol) 2010
- 25 Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Partïon a chanddynt Fuddiant) 2010
- 26 Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Ymgynghori ar Ddatganiad Polisi Cenedlaethol) 2009
- 27 Rheoliadau Cyfiawnhau Arferion sy'n ymwneud ag Ymbelydredd Ïoneiddio 2004
- 28 Rheoliadau Liffiau 1997
- 29 Rheoliadau Diogelu Niwclear (Hysbysiad) 2004
- 30 Rheoliadau Cyfarpar Diogelu Personol 1992 (Sylwer, mae hyn yn ymwneud a gofynion diogelwch cynnyrch)
- 31 Rheoliadau Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1992
- 32 Rheoliadau Cynhyrchion Diogelu Planhigion 2011
- 33 Rheoliadau Atal a Rheoli Llygredd (Yr Alban) 2000
- 34 Rheoliadau Offer Gwasgedd 1999
- 35 Rheoliadau Darparu Gwasanaethau 2009
- 36 Rheoliadau Eitemau Pyrotechnegol (Diogelwch) 2010
- 37 Rheoliadau Gorfodi Cofrestru, Gwerthuso ac Awdurdodi Cemegau (REACH) 2008
- 38 Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005
- 39 Rheoliadau Llestri Gwasgedd Syml (Diogelwch) 1991
- 40 Gorchymyn Pathogenau Anifeiliaid Penodedig 2008
- 41 Gorchymyn Pathogenau Anifeiliaid Penodedig (Yr Alban) 2009
- 42 Gorchymyn Pathogenau Anifeiliaid Penodedig (Cymru) 2008
- 43 Rheoliadau Cyflenwi Peiriannau (Diogelwch) 2008
- 44 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Lloegr) 2010
- 45 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Yr Alban) 2008
- 46 Cynllunio Gwlad a Thref (Asesiad Effaith Amgylcheddol) (Yr Alban) (Rheoliadau) 2011

- 47 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) 1995
- 48 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Sylweddau Peryglus) (Yr Alban) 1993
- 49 Rheoliadau Cludo Gwastraff Ymbelydrol a Gweddillion Tanwydd ar Draws Ffiniau 2008
- 50 Rheoliadau Amser Gwaith 1998

Atodiad 2: Methodoleg a ddefnyddir i gyfrifo symiau taladwy

Cyfradd fesul awr

Cyfrifir costau i'w hadfer ar sail yr amser a dreuliwyd ar weithgaredd FFI (ble mae deiliad dyletswydd yn cyflawni tramgwydd materol) wedi ei luosogi gan gyfradd fesul awr a bennwyd o flaen llaw. Cyfrifir y gyfradd bob awr yn defnyddio model gosod cyfradd yn unol â chanllaw *Managing Public Money* Trysorlys EM ac mae'n cynnwys cost lawn yr holl adnoddau a ddefnyddir i gyflawni gweithgaredd FFI.

Mae'r model gosod cyfradd FFI yn seiliedig ar amcangyfrif o faint o ddyddiau archwilio, ymchwilio a gorfodi a dreulir yn rheoleiddio deiliaid dyletswydd, gan gynnwys gwaith swyddfa perthnasol, ar gyfer 2012/13, mewn meysydd ble nad yw'r HSE yn adfer ei gostau ar hyn o bryd.

Mae'r amcangyfrifon yn seiliedig ar ddata hanesyddol ynglŷn â faint o ddyddiau a dreuliwyd yn rheoleiddio deiliaid dyletswydd. Maent yn eithrio amser a dreuliwyd ar waith erlyn ac yn ystyried y newidiadau mewn polisi archwilio a sefydlwyd yn *Good Health and Safety, Good for Everyone* (h.y. lleihad yn y nifer o archwiliadau rhagweithiol a symudiad o waith rhagweithiol i adweithiol mewn ymateb i ddigwyddiadau neu gwynion).

Cyfrifwyd y gyfradd bob awr trwy rannu'r cyfanswm o gostau adferadwy gyda'r dyddiau rheng flaen FFI disgwylidig.

Mae'r costau adferadwy yn cynnwys:

- cyflogau gros staff uniongyrchol – staff yn cyflawni eu gwaith, eu rheolwyr llinell a staff cefnogol;
- gwasanaethau corfforaethol a chostau cyffredinol, yn cynnwys gwasanaethau cyffredinol, e.e. costau cyllid a chynllunio, llety a thechnoleg gwybodaeth;
- taliadau cyfalaf – dibrisiad asedau sefydlog, cost cyfalaf ac yswiriant enwol; a
- gwariant gweinyddol cyffredinol, yn cynnwys:
 - teithio a chynhaliath;
 - datblygiad a hyfforddiant staff;
 - gwasanaethau swyddfa (ee postio a thelathrebu); a
 - unrhyw gostau eraill priodol allai godi.

Nid yw'r costau adferadwy yn cynnwys ymchwil a chefnogaeth allanol, ymchwil a chefnogaeth a gynlluniwyd gan yr HSL, na chostau yn ymwneud â gweithgareddau megis ymgysylltu â rhanddeiliaid a darparu cyngor ac addysg. Hefyd wedi eu heithrio mae HSL, a chostau cefnogaeth ar gontract allanol, adweithiol, a fydd yn cael eu codi'n uniongyrchol ar ddeiliaid dyletswydd unigol.

Bydd Cyfrifon Masnachu Memorandwm yn cael eu paratoi'n flynyddol. Byddant yn dangos y costau a sefydlwyd dan y penawdau uchod ac yn nodi HSL, a chefnogaeth adweithiol ar gontract allanol. Bydd y rhain yn amodol i graffu mewnol gan adran Archwilio Mewnol yr HSE ac yn allanol gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Cyhoeddir Cyfrifon Masnachu Memorandwm cryno ar wefan yr HSE yn yr hydref yn dilyn pob blwyddyn ariannol (a ddaw i ben ar 31 Mawrth).

Bydd y model gosod cyfraddau yn cael ei hadolygu pob blwyddyn i ddarparu cyfradd FFI ddiwygiedig ar gyfer y flwyddyn ariannol ddilynol.

Rhagor o wybodaeth

Am ragor o wybodaeth ynglŷn ag iechyd a diogelwch, neu i adrodd anghysondeb neu wallau yn y canllaw hwn, ewch i www.hse.gov.uk. Gallwch weld canllaw'r HSE ar-lein a chyhoeddiadau am bris eraill o'r wefan hon. Mae cyhoeddiadau am bris yr HSE hefyd ar gael o siopau llyfrau.

Mae'r ddogfen hon ar gael o: www.hse.gov.uk/pubns/hse47.htm.

Mae'r canllaw hwn yn cydymffurfio ag wyth rheol euraidd canllawiau da (gweler www.bis.gov.uk/files/file53268.pdf).